WREXHAM
CITY BOARD

Dinas lewyrchus fywiog a chwareus

# Wrecsam

## Cynllun Adfywio

**Rhaglen Balchder Bro –**
**Cynllun ar gyfer Cymdogaethau Wrecsam**
**Hydref 2025**



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

# DIBEN

Dyma weledigaeth 10 mlynedd Bwrdd Dinas Wrecsam ar gyfer cyflwyno Wrecsam i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'n dilyn strwythur canllawiau Llywodraeth y DU ac wedi'i ffurfio o amgylch gweledigaeth lefel uchel a Chynllun Buddsoddi 4 blynedd cychwynnol. Dyma ein hachos busnes i sicrhau'r buddsoddiad sydd ar gael gan Lywodraeth y DU. Fel y cyfryw, mae'n nodi'r 'achos strategol dros newid', sy'n adnabod yr heriau sy'n wynebu Wrecsam a'r cyfleodd i fynd i'r afael â nhw, gan ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael.

Mae datblygu'r Cynllun hwn yn cydnabod pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau ac i weithio tuag at gyflawni'r saith Nod Llesiant cenedlaethol. Mae ein dull gweithredu yn cynnwys pum Ffordd o Weithio y Ddeddf – meddwl yn yr hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu a chymryd rhan – gan sicrhau bod ein hymdrechion adfywio yn cyfrannu at greu Cymru fwy ffyniannus, gwydn, iachach a mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynol, diwylliant bywiog a chyfrifoldeb byd-eang.

Mae Bwrdd Dinas Wrecsam wedi gweithio'n gyflym ers ei ffurfio ym mis Ebrill 2024, yn wreiddiol o gwmpas paratoi'r Cynllun Hir Dymor ar gyfer Trefi, i ddatblygu dogfen gyflwyno, gaiff ei chyflwyno i Lywodraeth y DU i'w hasesu a'i chymeradwyo. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio eglurhad neu ddiwygiadau i'r fersiwn hon o'r Cynllun ond ar ôl ei gymeradwyo, bydd yna'n dod yn Gynllun Adfywio ar gyfer Wrecsam.

Mae'r ddogfen hon wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd Dinas Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Hydref 2025.

# CYNNWYS


**1. CROESO I WRECSAM** 02
- Lleoliad Rhanbarthol Wrecsam 04
- Bwrdeistref Sirol Wrecsam 05
- Ffin Dinas Wrecsam 05

**2. TARGEDU GOFODOL** 06

**3. GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL** 08
- Lle rydym ni eisiau bod 10

**4. ACHOS STRATEGOL AR GYFER NEWID** 11
- Poblogaeth y ddinas 13
- Pobl ifanc 15
- Canol y ddinas 17
- Diogelwch 19
- Trafnidiaeth a chysylltedd 22
- Cyfleoedd 24
- Enghraifft o ddigwyddiadau 25
- Blaenoriaethau cymunedol ar gyfer newid 26

**PROSIECTAU AC YMYRIADAU BLAENORIAETH** 28
- Pobl Ifanc yn Wrecsam 30
- Canol Dinas Wrecsam 31
- Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant 32
- Buddsoddiad yn Wrecsam 33
- Cynnwys Pawb yn Wrecsam 34

**6. MEYSYDD YMYRRAETH** 28
- 1. Pobl Ifanc – Adeiladu dinas i genedlaethau'r dyfodol 37
- 2. Diogelwch ac atal Troseddau 39
- 3. Creu lleoedd yng nghanol y ddinas 40
- 4. Diwylliant fel catalydd 41

**7. ALINIAD Â RHAGLENNI A BUDDSODDIADAU ERAILL** 43

**8. ARIAN CYFATEBOL A BUDDSODDIAD TROSOLEDD** 46

**9. YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED A RHANDDEILIAID** 48

**10. LLYWODRAETHU** 50

**11. SICRWYDD** 52

**12. AMSERLEN** 54



# 1. CROESO I WRECSAM



# CROESO I WRECSAM

- **DINAS DDIWEDDARAF CYMRU**
- **135,000 O BOBLOGAETH**
- **“PRIF DDINAS GOGLEDD CYMRU”**

Ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, mae Wrecsam wedi bod yn fan cyfarfod a chroesffordd erioed, lle mae pobl wedi dod i fasnachu a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol dros gannoedd o flynyddoedd. Mae’r dref bellach yn ddinas a phrif ganolfan fasnachol a diwydiannol gogledd Cymru. Mae’n lle hyderus, amrywiol a ffyniannus – heb ofn dathlu ei asedau niferus ac yn falch o’i Gymreictod.

Caiff pwysigrwydd strategol Wrecsam ei danlinellu gan ei agosatrwydd at boblogaethau trefol mawr. Mae gan ardal Mersi Dyfrdwy, sy’n cwmpasu gogledd-ddwyrain Cymru, Gorllewin Swydd Gaer a Chilgwri, boblogaeth o bron i filiwn.

Mae’r ddinas yn ganolfan ar gyfer gweithgynhyrchu, manwerthu ac addysg ac mae hefyd yn lleoliad ar gyfer ystod o sefydliadau llywodraeth leol, iechyd, addysg bellach ac uwch. Mae treftadaeth bêl-droed y ddinas a phroffil Clwb Pêl-droed Wrecsam wedi rhoi Wrecsam yn gadarn ar y map cenedlaethol a rhyngwladol, ffenomen sydd nid yn unig wedi sbarduno ffyniant twristiaeth mewn lle nad oedd llawer o deithwyr yn arfer ymweld ag o, ond sydd ar yr un pryd yn helpu i adfywio popeth “Wrecsam”.


Mae llwyddiant a bywiogrwydd Wrecsam wedi’u plethu’n ddwfn â llesiant y Fwrdeistref Sirol gyfan. Fel y brif ganolfan wasanaeth, mae Wrecsam yn darparu addysg, adloniant a gwasanaethau hanfodol i’r boblogaeth gyfan o 135,000. Mae’r ddibyniaeth hon yn sicrhau bod Wrecsam ffyniannus yn cyfrannu at ffyniant y Fwrdeistref Sirol gyfan, gan wella cryfder cymunedau ac asedau eraill. Mae bywiogrwydd y ddinas hefyd yn cefnogi ac yn cael ei gefnogi gan economi ddiwydiannol a diwylliannol gyfoethog yr ardaloedd cyfagos, gan greu cymuned gadarn a rhyng-gysylltiedig a chodi proffil atyniadau fel Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, Safle Treftadaeth y Byd.

# LLEOLIAD RHANBARTHOL WRECSAM

**Mae Wrecsam tua 34 milltir o Lerpwl, 50 milltir o Fanceinion a 70 milltir o Birmingham.**


**Gorsafoedd rheilffordd Wrecsam Cyffredinol a Wrecsam Canolog sy'n darparu cysylltiadau rheilffordd uniongyrchol â dinasoedd fel Caer, Amwythig ac ymhellach i ffwrdd i Birmingham a Chaerdydd.**

**Prif ffyrdd, gan gynnwys yr A483, sy'n cysylltu Wrecsam â thraffyrdd yr M53 a'r M56, a'r A5, sy'n darparu llwybr uniongyrchol i'r Amwythig a chysylltiadau pellach â gorllewin canolbarth Lloegr. Cysylltiad yr A55 â'r porthladd yng Nghaergybi a Pharc Cenedlaethol Eryri.**



# BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

- Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- AHNE
- Canol Dinas Wrecsam
- Ystad Ddiwydiannol Wrecsam
- Traphont Ddŵr Pontcysyllte






# 2. TARGEDU GOFODOL

# TARGEDU GOFODOL


Mae ffabrig trefol Wrecsam wedi'i siapio gan glytwaith o gymdogaethau, pob un â'i hanes, ei phroffil cymdeithasol a'i isadeiledd cymunedol ei hun. Mae'r ardaloedd amrywiol hyn yn cydgyfeirio â chanol y ddinas, gan ffurfio calon gymdeithasol ac economaidd dinas ddiweddaraf Cymru.

Yn cwmpasu'r ardal drefol mae pedwar cyngor cymuned – Gwaunyterfyn, Offa, Rhosddu a Pharc Caia. Mae'r cynghorau hyn yn cynrychioli'r prif gymunedau trefol ac yn chwarae rhan mewn llywodraethu lleol a hunaniaeth ddinesig. Y tu hwnt i'r ardaloedd gweinyddol ffurfiol hyn, mae ardaloedd eraill fel Pentre'r Ardd a Hightown yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad a bywyd beunyddiol y ddinas. Er nad oes ganddynt eu cynghorau cymuned eu hunain, maent yn hanfodol i ymdeimlad o le a bywiogrwydd cymdeithasol y ddinas.

Gyda'i gilydd, mae'r cymdogaethau hyn yn darparu'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ar gyfer ein Cynllun gan eu bod yn cwmpasu'r Ardal Adeiledig ac yn ffurfio tirwedd drefol sy'n amrywiol yn gymdeithasol a chymhleth o ran gofod, gan adlewyrchu esblygiad Wrecsam o dref farchnad ddiwydiannol i ddinas hyderus, gysylltiedig a diwylliannol unigryw.

Ers ei ffurfio, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu **dull 'canol y ddinas yn gyntaf'** – gan flaenoriaethu buddsoddiad yng nghanol Wrecsam oherwydd yma y mae'r holl ardaloedd cymdogaeth yn cydgyfeirio.

Er mwyn sicrhau y gall cymunedau ledled y ddinas barhau i ymgysylltu'n hyderus â chyflawni'r weledigaeth dros y deng mlynedd nesaf, mae ein hardal Cynllun yn cyd-fynd â'r Ardal Adeiledig, tra bydd blaenoriaethau buddsoddi yn canolbwyntio i ddechrau ar ganol y ddinas (fel y nodir gan yr ardal dywyll). Wrth i dystiolaeth bellach o angen a chyfleoedd ddod i'r amlwg, yn enwedig o amgylch isadeiledd i gefnogi nodau adfywio ehangach.






# 3. GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL

# GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL

## Gwneud Wrecsam y ddinas fwyaf bywiog, chwareus a ffyniannus i bawb sy'n ddigon ffodus i fyw yma:

- Llawn talent sy'n ysbrydoli pobl ifanc
- Ble mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo eu bod yn perthyn
- Digon o gyfleoedd am waith sicr sy'n eich ysbrydoli
- Mwynhau Dinas sydd wedi'i chreu ar gyfer chwarae waeth beth fo'ch oedran
- Ble mae pobl yn ffynnu trwy gydol eu bywydau

Croeso i Wrecsam, ble mae hunaniaeth Gymreig gyfoethog ac ysbryd cymunedol ffyrnig yn ein diffinio. Ein gweledigaeth ydy i Wrecsam fod yn ddinas fywiog, ffyniannus a chwareus. Ein nod ydy gwella ein hisadeiledd, cyfoethogi ein diwylliant a chreu profiadau cyffrous sy'n ail-lunio canfyddiadau ac yn ennyn mwy o falchder yn ein trigolion a'n hymwelwyr.

Bydd agwedd gadarnhaol o'r newydd tuag at ganol ein dinas yn gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio, gan yrru twf economaidd ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan. Gyda llygad y byd arnom oherwydd buddugoliaethau ein clwb pêl-droed, statws dinas newydd, a chais i ddod yn Ddinas Diwylliant, mae gennym uchelgais ddi-stop a fydd yn gyrru ein gweledigaeth ymlaen.

Rydym yn falch o fod yn "brifddinas gogledd Cymru", mewn sefyllfa unigryw i ddenu mwy o fuddsoddiad, gwella trafnidiaeth, ehangu cyfleoedd economaidd, hyrwyddo iechyd da a meithrin creadigrwydd, gan sicrhau bod twf y ddinas o fudd i bawb. Mae ein dinas yn ymfalchïo mewn ysbryd cymunedol heb ei ail, sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ei hanes cyfoethog, treftadaeth ddiwydiannol, a'i phoblogaeth fywiog, amlddiwylliannol, gyda chysylltiadau milwrol balch. Mae ein tirwedd ddiwylliannol yn cynnwys atyniadau ymwelwyr o'r radd flaenaf a thraddodiad enwog o feirdd, cantorion a storïwyr a fydd yn cyfareddu ac yn ysbrydoli mwy o ymwelwyr o bob cwr o'r byd.

Fel canolfan addysgol gydag ysgolion uchel eu parch, prifysgol a choleg, bydd Wrecsam yn ddinas uchelgais lle mae pobl ifanc yn dewis dysgu, byw a ffynnu. Byddwn yn meithrin meddyliau yfory gan sicrhau bod Wrecsam yn rhywle lle gall pawb ffynnu.











# LLE RYDYM NI EISIAU BOD

Yn 2025, mae Wrecsam yn camu'n hyderus i'w dyfodol fel dinas ddiweddaraf Cymru - uchelgeisiol, cynhwysol ac ar fynd. Mae buddsoddiadau mawr eisoes yn ail-lunio canol y ddinas: marchnadoedd hanesyddol wedi'u hadfywio, tirnodau diwylliannol wedi'u hail-ddychmygu, Porth Wrecsam ar y gweill a chanolfan drafnidiaeth newydd ar y gorwel. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gosod y sylfeini ar gyfer lle mwy cysylltiedig, deinamig a chroesawgar.

Mae momentwm yn tyfu. Mae cais y ddinas i ddod yn Ddinas Diwylliant y DU 2029 yn adlewyrchu ton o falchder dinesig ac egni diwylliannol. Mae proffil byd-eang Clwb Pêl-droed Wrecsam, arweinyddiaeth arloesi Prifysgol Wrecsam a gwaith adfywio creadigol ledled y ddinas yn tanio hyder a gwelededd o'r newydd. Bydd y Rhwydwaith Gogledd Cymru sydd ar ddod yn dod â thrafnidiaeth gyhoeddus ar ffurf metro i'r rhanbarth - gan uno cymunedau, mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a datgloi cyfleoedd economaidd ar draws Wrecsam a thu hwnt.

Ond rydym ni'n gwybod bod rhaid i newid go iawn gyrraedd y tu hwnt i ganol y ddinas. Mae rhai cymdogaethau yn parhau i wynebu anghydraddoldeb dwfn mewn iechyd, incwm, addysg a chyfleoedd. Mae hynny'n golygu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn uniongyrchol a buddsoddi yn y gwelliannau sydd o fudd i gymunedau ledled y ddinas. Canol y ddinas ydy lle bydd cyllid Cynllun ar gyfer Cymdogaethau yn ein helpu i wneud y gwahaniaeth mwyaf i ddechrau.

Rydym ni eisiau symud yn gyflym – cyrraedd y broses o ddarparu, adeiladu momentwm a dangos effaith yn gynnar. Trwy'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau, byddwn yn ymhelaethu ar waith adfywio presennol, datgloi cyllid pellach ac adeiladu gallu mewn cymunedau i yrru newid o'r tu mewn. Bydd y cyllid hwn yn ein helpu i gyflawni etifeddiaeth hirdymor fydd yn parhau ymhell ar ôl i unrhyw raglen ddod i ben.

Wrth wraidd y weledigaeth hon mae canol dinas ddiogel, chwareus a bywiog – calon ddinesig sy'n adlewyrchu hunaniaeth Wrecsam ac yn croesawu pawb. Bydd ein huchelgais Dinas Diwylliant 2029 yn gwasanaethu fel lifer pwerus i yrru adfywio cynhwysol, rhoi hwb i niferoedd ymwelwyr a chodi dyheadau ledled y ddinas.

Yn fwy na dim, rydym ni'n buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf – creu gofodau, cyfleoedd a chefnogaeth well i bobl ifanc, fel eu bod yn tyfu i fyny yn credu y gallant aros, ffynnu a siapio dyfodol y ddinas hon.

### Sut y byddwn yn cyflawni hyn

Mae ein dull yn dilyn rhesymeg glir: trwy ganolbwyntio buddsoddiad ar ganol dinas Wrecsam – calon y Fwrdeistref Sirol – byddwn yn creu effaith crychdonnau sydd o fudd i gymunedau ar draws yr ardal gyfan.

Trwy wneud canol y ddinas yn fwy diogel, yn fwy deniadol ac yn fwy croesawgar, byddwn yn newid canfyddiadau, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, ac yn annog pobl i dreulio mwy o amser yno.

Bydd y gweithgaredd newydd hwn yn helpu busnesau presennol i ffynnu, denu mentrau newydd a buddsoddiad a chynhyrchu mwy o gyfleoedd swyddi gan adeiladu economi leol gryfach, mwy amrywiol.

Bydd canol y ddinas mwy diogel a mwy deniadol hefyd yn denu pobl ifanc. Trwy gyfleuster **Parth Ieuenctid** blaenllaw, byddwn yn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn teimlo'n falch o'u dinas a bod cyfleoedd iddynt aros, dysgu ac adeiladu eu dyfodol yma.

Trwy ddathlu **diwylliant a threftadaeth** unigryw Wrecsam – gan gynnwys drwy ein huchelgais Dinas Diwylliant 2029 – byddwn yn cryfhau balchder dinesig, cydlyniant cymunedol, a chanfyddiad ymwelwyr a buddsoddwyr o Wrecsam.

Bydd y gwelliannau hyn ar y cyd yn arddangos potensial Wrecsam, gan ddatgloi buddsoddiad preifat a chyhoeddus pellach ac ymestyn y gwaith adfywio o ganol y ddinas i gymdogaethau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn creu **cylch rhinweddol:** bydd canol dinas mwy diogel, mwy bywiog yn denu pobl ifanc, ymwelwyr a buddsoddiad; bydd hyn yn creu cyfleoedd newydd i breswylwyr; a bydd hynny, yn ei dro, yn adeiladu balchder cymunedol – gan ddenu hyd yn oed mwy o bobl i fyw, gweithio a buddsoddi yn Wrecsam.

**Gwneud i'r arian weithio i'n dinas**

**Adeiladu momentwm, egni a chyfranogiad**

**Gweithredu**

**Gadael etifeddiaeth**




# 4. ACHOS STRATEGOL AR GYFER NEWID

# ACHOS STRATEGOL AR GYFER NEWID

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae economi Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi trawsnewid o un gaiff ei ddominyddu gan ddiwydiannau trwm a thraddodiadol i ganolfan bwysig ar gyfer gweithgynhyrchu, technoleg a gwasanaethau. Yn yr un modd, mae angen i ddinas a chanol Wrecsam gael ei thrawsnewid ei hun gan ei bod yn wynebu llawer o heriau fel y rhai y mae trefi ledled y DU wedi'u profi.

Mae'r heriau hyn wedi arwain at ddynodi'r Fwrdeistref Sirol fel un o'r 100 o ardaloedd blaenoriaeth yn y DU i dderbyn buddsoddiad gan y Llywodraeth. Mae llawer o'r materion economaidd-gymdeithasol sy'n tanlinellu'r angen i fuddsoddi wedi'u crynhoi yng nghanol ardal drefol Wrecsam. Neges ganolog ein Cynllun ydy bod ffyniant y ddinas yn dibynnu ar lwyddiant cyffredinol y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn i'r Fwrdeistref Sirol ffynnu, mae'n hanfodol bod canol dinas Wrecsam yn ffynnu.



Un o feysydd twf cenedlaethol Cymru a rhagwelir y bydd yn tyfu mewn poblogaeth dros y degawdau nesaf. Mae hyn yn gofyn am gartrefi, swyddi, isadeiledd a chyfleusterau cymunedol newydd i gefnogi twf economaidd a chodi safonau byw.

Mae rhai cymunedau ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar draws yr holl fynegai gaiff ei fesur. Mae crynodiadau o amddifadedd yn y ddinas gan gynnwys y 9fed ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru, sefyllfa gaiff ei gyrru gan incwm isel, cyfraddau isel o gyflogaeth a chanlyniadau iechyd isel.

**5/22**

Y 5ed awdurdod lleol lleiaf llewyrchus o'r 22 yng Nghymru a'r 344fed lleiaf llewyrchus yn y DU allan o 379 awdurdod lleol. Golyga hyn bod Wrecsam yn y 10% lleiaf llewyrchus o awdurdodau lleol y DU.

Er ei fod yn dangos sefyllfa sy'n gwella, mae Mynegai Cystadleurwydd y DU 2023 yn gosod Wrecsam yn y traean isaf o awdurdodau lleol y DU yn safle 259 allan o 362.

# POBLOGAETH Y DDINAS

## DIRYWIAD YN Y BOBLOGAETH

**1.7%** Dirywiad ym mhoblogaeth y dref rhwng 2011 – 2022

## POBLOGAETH AMLDDIWYLLIANNOL

**15%** o'r boblogaeth wedi'u geni y tu allan i'r DU (7% Cymru)

**11%** o'r boblogaeth ddim yn ystyried y Gymraeg na'r Saesneg fel eu prif iaith (3% Cymru)

## LLAI O SGILIAU A CHYMWYSTERAU

**17%** Heb gymwysterau (14% Cymru)

**11%** Cymhwyster lefel 4 ac uwch (32% Cymru)

## LEFELAU CYFFREDIN O IECHYD

Iechyd cyffredinol ac anabledd yn eithaf tebyg i Gymru

Crynodiad o ddiffyg iechyd da i'r dwyrain

## CYFLOGAETH UCHEL, CYNHYRCHIANT ISEL

**71%** Y mwyafrif o bobl mewn gwaith (69% Cymru)

**24%** Tydy bron i chwarter y bobl erioed wedi gweithio (23% Cymru)

**£41K** Gwerth ychwanegol gros (GYG fesul swydd yn 2020: Cynhyrchiant isel (£50k yng Nghymru)

## TROSEDDU A DIOGELWCH UCHEL

**165** /1000 o boblogaeth (78/1000 o boblogaeth)

Bron i ddwbl y gyfradd troseddu na'r cyfartaledd yng Nghymru




Mae tueddiadau demograffig ac economaidd-gymdeithasol allweddol rhwng 2011 a 2022 yn dangos bod Wrecsam wedi profi dirywiad o 1.7% yn y boblogaeth. Gyda 15% o'n preswylwyr yn cael eu geni y tu allan i'r DU ac 11% yn siarad ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg, rydym ni'n un o'r ardaloedd mwyaf amlddiwylliannol yng Nghymru. Mae cyrhaeddiad addysgol yn gymharol isel, gyda 23% o'r boblogaeth heb unrhyw gymwysterau a dim ond 28% sydd â chymwysterau Lefel 4 neu uwch. Mae lefelau iechyd ar gyfartaledd, ond mae gennym grynodiad o iechyd gwael yn rhan ddwyreiniol y ddinas. Mae cyflogaeth yn uchel ar 71%, ond mae cynhyrchiant yn isel, gyda Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) fesul swydd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Yn ogystal, mae gan Wrecsam gyfradd troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arbennig o uchel, bron i ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol.

# AMDDIFADEDD

Mae Cyfrifiad 2021 yn dosbarthu cartrefi yn ôl pedwar dimensiwn amddifadedd: cyflogaeth, addysgu, iechyd ac anabledd, a gorlenwi cartrefi. Yn y ffigyrau, mae lliwiau goleuach (o felyn) yn dynodi'r ardaloedd lleiaf difreintiedig a lliwiau tywyllach (i las tywyll) yn dynodi'r rhai mwyaf difreintiedig. Er bod pocedi o amddifadedd uwch wedi'u lleoli o amgylch y ddinas, mae'r crynodiadau mwyaf i'r gweld i'r dwyrain yng nghymunedau Parc Caia gan gynnwys Queensway 1, y 9fed gymuned fwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r ardal fach fwyaf difreintiedig o ran addysg yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019). Gall amddifadedd gael effaith tlodi hirdymor ar unigolion a chymunedau ac yn arbennig ar bobl ifanc. Ar hyn o bryd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn datblygu Strategaeth Gwrthdlodi newydd, fydd yn tynnu ar y data diweddaraf i lywio dulliau wedi'u targedu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael â thlodi ar draws y Fwrdeistref Sirol.


**Mae darlun economaidd-gymdeithasol y ddinas yn amrywio'n fawr, gyda rhai cymdogaethau yn dangos ardaloedd o anghenion clir a nodweddion diffiniol.**




**Ffynhonnell: ONS 2021**


## Tarddiad Ethnig:

Cymru a Lloegr
**Grŵp Ethnig Arall**




## Ddim mewn gwaith

Cymru a Lloegr
**Ddim mewn gwaith: Erioed wedi gweithio**




## Dim cymwysterau

Cymru a Lloegr
**Dim cymwysterau**



# POBL IFANC

**Mae bron iawn i 8,000[1] o blant yn Wrecsam yn byw mewn tlodi. Yn benodol, mae 7,853 o blant, neu 26.7 y cant o ieuenctid y Fwrdeistref Sirol, yn cael eu heffeithio. Mae'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio'n galetaf yn cynnwys Queensway ym Mharc Caia, Cefn Mawr a Phlas Madog ger Acrefair. Mae teuluoedd mewn tlodi yn aml yn cael trafferth gyda gwresogi, hylendid a digon o fwyd, gan effeithio ar les corfforol a meddyliol plant. Mae canlyniadau addysgol gwael, tai is-safonol, a theuluoedd yn chwalu hefyd yn faterion sylweddol, gaiff eu gwaethygu gan yr argyfwng costau byw parhaus. Mae adroddiad Archwilio Cymru o 2021-22 yn dangos bod dros bump y cant o boblogaeth Wrecsam yn dibynnu ar fanciau bwyd, sy'n ei roi yn safle'r wythfed uchaf yng Nghymru.**

**Yn 2023 fe wnaeth "Y Sgwrs Fawr"[2] ymgysylltu gyda dros 10% o'r bobl ifanc 18 - 21 oed sy'n byw yn Wrecsam wnaeth ddweud nad oedd unrhyw un wedi holi am eu barn o'r blaen. Datgelodd gwell ddealltwriaeth o'r heriau economaidd-gymdeithasol, iechyd meddwl a datgysylltiad addysgol ymhlith ieuenctid Wrecsam, ac mae'n ceisio gwella eu bywydau trwy ymyriadau wedi'u targedu ac ymgysylltu â'r gymuned.**

---

Mae angen ymdrech gydweithredol ymhlith yr holl randdeiliaid yn Wrecsam i greu amgylchedd cefnogol sy'n caniatáu i bobl ifanc ffynnu a chyfrannu'n ystyrlon i'w cymuned. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Mae'r cyfleoedd sydd wedi'i hamlygu yn yr adroddiad yn canolbwyntio ar:

## Ynysu Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl

Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo'n fwyfwy unig, yn dioddef gorbryder ac yn teimlo wedi'u datgysylltu hyd yn oed pan fyddant ymhlith eu cyfoedion.

## Ymddieithrio Rhag Addysg

Mae dirywiad nodedig mewn diddordeb mewn addysg ffurfiol, gyda thraean o bobl ifanc wedi colli diddordeb ar ôl y pandemig.

## Heriau Economaidd a Chymdeithasol

Mae straen economaidd a'r pandemig wedi gwaethygu teimladau o ddieithrio ac ansicrwydd ariannol ymhlith yr ieuenctid.



## Strategaethau Ymgysylltu Penodol

Defnyddio cipolwg o'r sgyrsiau i ddatblygu personau ac ymyriadau penodol i ail-ymgysylltu â phobl ifanc yn effeithiol.

## Cymuned a Pherthyn

Gwella ymdeimlad pobl ifanc o gymuned trwy gyd-ddiddordebau a rhwydweithiau cefnogi.

## Cefnogaeth Ariannol a Phroffesiynol


Rhaglenni i fynd i'r afael â sgiliau cyflogadwyedd, cymorth iechyd meddwl a heriau economaidd, gan ddarparu pobl ifanc gyda'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyheadau.

**[1] Tlodi Plentyndod yn Wrecsam, Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles Mehefin Cyngor Wrecsam, 2024**

**[2] Canfyddiadau ac ymateb WeMindTheGap i'r Sgwrs Fawr 2023**

Mae ardal drefol Wrecsam ychydig yn iau na'r Fwrdeistref Sirol gyfan, gyda phobl ifanc 15 oed ac iau yn ffurfio cyfran sylweddol o'r boblogaeth. Mae'r ddemograffig iau hwn wedi'i grynhoi'n arbennig mewn cymdogaethau i'r de a'r dwyrain o ganol y ddinas, gan gynnwys Hightown a Pharc Caia, lle mae plant a phobl ifanc yn cyfrif am rhwng 20% a 26% o'r trigolion.

Mae'r boblogaeth ifanc hon yn tanlinellu pwysigrwydd buddsoddi mewn gwasanaethau, gofodau a chyfleoedd i bobl ifanc yng nghanol y ddinas ac yn agos ato.




**Ffynhonnell: ONS 2021**

# CANOL Y DDINAS


Cadarnhaodd Gynllun Creu Lleoedd Canol y Ddinas[3] sut mae canol y ddinas yn wynebu nifer o heriau, rhai sy'n ymwneud â'r dirywiad cyffredinol y mae'r rhan fwyaf o ganol trefi a dinasoedd ledled y DU yn ei brofi, ac eraill sy'n benodol i Wrecsam.

Mae'r dadansoddiad o boblogaeth, gwariant a phatrymau teithio Wrecsam yn dangos bod cartrefi llwyddiannus sy'n berchen ar geir sy'n byw mewn cymdogaethau a phentrefi maestrefol a gwledig y tu allan i'r ddinas yn gweithio, siopa a threulio'r rhan fwyaf o'u hamser hamdden yn rhywle arall – gaiff ei alw'n Byw-Gweithio-Gwario-Gwneud-Datgysylltu. Er y caiff £101m ei wario bob blwyddyn gan drigolion yng nghanol dinas Wrecsam, gyda £6m ychwanegol yn cael ei wario gan weithwyr a £6m gan dwristiaid (cyfanswm o £113m) caiff gwariant sylweddol ei golli gan y boblogaeth leol. Mae'r rhai sy'n byw yn Wrecsam yn gwario mwy (£137m) yn Cheshire Oaks, Brychdyn a Chroesoswallt, sydd i gyd y tu allan i'r sir. Maen nhw hefyd yn gwario £72m ar-lein. Mae cyrchfannau siopa/hamdden y tu allan i'r dref hefyd yn cael effaith, caiff £41m ei wario ym Mhlas Coch, sy'n dal ymwelwyr cyn iddynt gyrraedd canol y ddinas. Caiff y nifer o barciau manwerthu y tu allan i'r dref eu ffafrio oherwydd pa mor hwylus ydynt ac yn aml dyma ddewis cyntaf llawer o gartrefi sy'n dlawd o amser.

| Ardal | Llif Gwariant (£) | Cyfran y Farchnad |
|---|---|---|
| Wrecsam | £101M | 23% |
| Cheshire Oaks – McArthur Glen Outlet Centre | £52M | 12% |
| Croesoswallt | £45M | 10% |
| Parc Manwerthu Plas Coch Wrecsam | £41M | 9% |
| Brychdyn Gaer | £40M | 9% |
| Ar-lein | £71M | 16% |

| Dalgylch manwerthu | % o wariant yn yr ardal (pwysedig) |
|---|---|
| Prif | 53% |
| Ail | 24% |
| Trydydd | 16% |
| Pedwerydd | 8% |

**Ffynhonnell: CACI 2021**




O ganlyniad, mae busnesau canolog Wrecsam wedi dod yn fwy dibynnol ar boblogaeth sy'n deillio o gymdogaethau trefol llai llewyrchus, lle mae'r prif ddalgylch yn cynnwys un o'r cymdogaethau mwyaf ei maint a mwyaf difreintiedig yn Wrecsam.

Gyda 53% o'r gwariant yn dod o'r dalgylch hwn, caiff yr ardal ei chynnal yn bennaf gan gylch mewnol o gartrefi llai llewyrchus o fewn taith gerdded gyfleus 10-20 munud o ganol y ddinas.

[3]Cynllun Creu Lleoedd Canol y Ddinas CBS Wrecsam, 2023

## Fodd bynnag, mae dirywiad canol y ddinas yn ymwneud â darlun mwy cymhleth o faterion a chanfyddiadau cysylltiedig, gan gynnwys:

**Mae problemau trafnidiaeth a pharcio yn gwneud parciau manwerthu a threfi eraill yn fwy ffafriol oherwydd pa mor hwylus ydynt**

**Diffyg atyniad gan gynnwys canfyddiadau allanol negyddol (e.e. diogelwch, ymddygiad gwrthgymdeithasol, yfed ar y stryd)**

**Mae 'cynnig gaiff ei arwain gan werth' yn brin o apêl i gartrefi llewyrchus**

**Nid ydy datblygiad preswyl wedi gwireddu'r manteision adfywio dymunol**

**Mae systemau canfod ffyrdd yn wael gyda llwybrau cerdded a beicio wedi'u rhwystro, yn wrth-reddfol ac anatyniadol**

**Methiant y farchnad eiddo gyda diffyg hyder gan y perchennog / buddsoddwr**

**Residential development hasn't realised the desired regeneration benefits**

**Navigation and wayfinding are poor with pedestrian and cycling routes obstructed, counter-intuitive, unattractive**

**Nid ydy gwerth a photensial treftadaeth adeiledig wedi'i wireddu na'i ddathlu'n llawn**

Er gwaethaf yr heriau parhaus sy'n wynebu canol dinas Wrecsam, mae arwyddion calonogol o gynnydd. Gwnaed buddsoddiad sylweddol drwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, ac mae cyfraddau swyddi gwag masnachol wedi dangos tuedd i lawr yn gyson, sydd bellach yn 14.8% - ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 13.2% (Ffynhonnell: LDC, 2025).

Datblygiad cadarnhaol arall ydy bod busnesau canol y ddinas wedi pleidleisio o blaid sefydlu Ardal Gwella Busnes (AGB), sy'n arwydd o awydd cryf am weithredu a buddsoddiad ar y cyd. Tynnodd arolwg diweddar o dros 40 o fusnesau lleol sylw at flaenoriaethau a heriau allweddol, gan atgyfnerthu'r achos dros gefnogaeth benodol ac adfywio drwy bartneriaeth.


- Mae busnesau yn nodi bod diogelwch, marchnata a hyrwyddo a digwyddiadau yn brif flaenoriaethau ar gyfer gwella canol y ddinas.
- Mae awydd cryf am fwy o ddigwyddiadau i ddenu mwy o ymwelwyr a gwella'r economi leol.
- Caiff ymdrechion marchnata cyfredol eu hystyried yn annigonol, gyda llawer o fusnesau yn dweud eu bod yn wael.
- Mae hygyrchedd hefyd yn hanfodol, yn enwedig argaeledd llefydd parcio, cynnal a chadw a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Yn ogystal, mae busnesau'n pwysleisio ar bwysigrwydd presenoldeb gwisg gweladwy a mesurau diogelwch fel camerâu TCC i wella canfyddiadau o ddiogelwch.

# DIOGELWCH

Mae'r data sydd ar gael a'r gweithgarwch ymgysylltu gan Fwrdd Dinas Wrecsam yn dangos y caiff diogelwch ei gydnabod fel mater sy'n peri mwy o bryder yn Wrecsam na llawer o rannau eraill o Gymru. Yn 2019, roedd mwy na hanner y dref ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran 'diogelwch cymunedol'. Yn 2023, roedd y gyfradd troseddu a gofnodwyd yn uwch na chyfartaledd Cymru ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac yn fwy arwyddocaol yng nghanol y ddinas. Mae cyfraddau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn uwch mewn ardaloedd yng nghanol y ddinas gan eu bod yn denu cyfeintiau mawr o bobl gan fod nifer uchel o adeiladau manwerthu, sef prif leoliadau ar gyfer yr economi nos, a phoblogaeth breswyl is.


Mae data a gomisiynwyd gan Fwrdd Dinas Wrecsam gan Heddlu Gogledd Cymru yn dangos bod troseddu wedi gostwng ym mhob categori ar draws "ardal rawd" canol dinas Wrecsam dros y tair blynedd diwethaf. Er gwaethaf y gwelliant hwn, mae canol y ddinas yn parhau i fod yn fan poblogaidd ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Y materion mwyaf cyffredin ydy trais heb anaf (2,101 o achosion), dwyn a thrin (1,675 o achosion) ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (1,443 o achosion). Yng nghanol y ddinas, yr orsaf fysiau ac ardal Ffordd y Cilgant ydy'r prif fannau poblogaidd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod troseddu yn fwyaf cyffredin o amgylch pen Town Hill/Abbot Street y Stryd Fawr, canolbwynt i economi nos Wrecsam.

**Man poblogaidd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y ddinas**







## Cyfradd troseddu wedi'i gofnodi fesul 1,000 o'r boblogaeth, 2023




**Ffynhonnell: DLUHC, LTPFT Data Pack data.police.uk, 2023**

**Man poblogaidd ar gyfer troseddu yng nghanol y ddinas**



Mae atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam. Mae ystod o fesurau proffil uchel a chydweithredol wedi'u mabwysiadu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afal â phryderon diogelwch yng nghanol y ddinas, megis defnyddio Cyllid Strydoedd Mwy Diogel i gyflogi marsialiaid stryd yn ystod y nos. Roedd y Marsialiaid yn cefnogi'r economi nos trwy roi presenoldeb gwisg ar y stryd a sicrwydd i aelodau'r cyhoedd mewn ardaloedd allweddol yng Nghanol Tref Wrecsam.

Yn ystod y dydd, roedd wardeiniaid Canol y Ddinas yn ymgymryd â rôl debyg. Yn ogystal, crëwyd Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) ar gyfer canol y ddinas sy'n targedu ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, daeth y cyllid ar gyfer y marsialiaid a wardeiniaid canol y dref i ben gan leihau'r gefnogaeth yn yr economi nos ac adnoddau gorfodi ar gyfer y Gorchymyn.

Ar hyn o bryd, mae dau warden canol y ddinas yn rhoi presenoldeb gweledol uchel i roi sicrwydd i ymwelwyr a helpu i orfodi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus cyfredol. Mae yma botensial i gynyddu'r nifer o swyddogion er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd o amgylch digwyddiadau yng nghanol y ddinas, ac i ymestyn y rolau i ddarparu mwy o gefnogaeth ymatebwyr cyntaf a llysgenhadon.

Mae Bugeiliaid Stryd yn cefnogi swyddogion heddlu SCCH ar nosweithiau Sadwrn, gan gynnig cyngor a chymorth i unigolion meddw a bregus, a'u cyfeirio at y Gofod Diogel yn Hafan y Dref ar Ffordd San Silyn. Yn flaenorol, roedd y gwasanaeth hwn yn gweithredu ar nosweithiau Gwener a Sadwrn, gan dynnu sylw ar yr angen i adfer y gwasanaeth dros y penwythnos. Yr hyn sydd hefyd yn bwysig i bobl ydy sut caiff trafnidiaeth hwyr ei rheoli'n ddiogel yn y nos. Gall ciwiau tacsi yn aml fod yn llefydd sy'n arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac weithiau gall hyn waethygu a throi yn ddigwyddiadau mwy difrifol, gan olygu bod angen marsialiaid penodol.

Mae pryderon ehangach yn cynnwys yr angen i uwchraddio ac ehangu systemau camerâu TCC er mwyn cynnal amrediad o safon uchel. Mae'r meysydd sydd i'w gwella yn cynnwys prif byrth y ddinas, fel Ffordd yr Wyddgrug, ac o amgylch y stadiwm pêl-droed a'r orsaf drenau. Caiff yr ardal hon ei hadfywio'n sylweddol ac mae disgwyl iddi weld mwy o weithgarwch ymwelwyr a thorfeydd.

Er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thraffig, mae atalbyst sy'n codi a disgyn yn awtomatig wedi'u gosod ar Stryd Efrog a'r Stryd Fawr, ac mae arwyddion 'Dim Mynediad' bellach ar 11 ffordd oedd yn rhoi mynediad i ganol y ddinas yn flaenorol. Gyda dyheadau i dyfu economi fwy diogel gyda'r nos, mae'r gallu i ail-flaenoriaethu defnydd cerddwyr o rai mannau cyhoeddus wedi dod yn fwyfwy pwysig.

Er gwaethaf y lleihad yng nghyfanswm nifer yr achosion troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol dros y tair blynedd diwethaf, mae'r gwaith ymgysylltu cyhoeddus a wnaed gan Fwrdd Dinas Wrecsam yn dangos bod dylanwadu'n gadarnhaol ar ganfyddiadau o ddiogelwch yn bwysig iawn i randdeiliaid. Gallai canfyddiadau negyddol atal pobl rhag ymweld â chanol y ddinas. Mae'n hanfodol y gall ymwelwyr cenedlaethol a rhyngwladol adael Wrecsam gydag argraff gadarnhaol yn seiliedig ar eu teimladau o les tra byddant yma.


# TAI

Mae'r map yn dangos patrwm crynodedig o amddifadedd tai o fewn ardal drefol Wrecsam, gyda'r ardaloedd tywyllaf yn nodi'r lefelau uchaf o amddifadedd yn ôl dangosyddion maes tai fel gorlenwi tai a thebygolrwydd o ansawdd tai gwael.

Mae'r data yn dangos bod yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran tai i'w cael yng nghanol y ddinas ac o amgylch y ddinas, yn enwedig cymdogaethau mewnol fel Parc Caia ac Offa. Mae'r ardaloedd hyn yn debygol o brofi cyfraddau uwch o orlenwi tai, yn seiliedig ar safon yr ystafell wely. Tai o ansawdd gwael, gan gynnwys adeiladau hŷn neu wedi'u cynnal yn wael, tebygolrwydd uwch o damprwydd, peryglon strwythurol a systemau gwresogi neu insiwleiddio annigonol.

Mae'r patrwm gofodol hwn yn adlewyrchu cynodiadau hanesyddol o dai cymdeithasol, stoc dai sy'n heneiddio ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sy'n parhau ar draws cymunedau Wrecsam. Bydd mynd i'r afael ag amddifadedd tai yn allweddol i wella iechyd, diogelwch ac ansawdd bywyd i breswylwyr, a lleihau anghydraddoldeb ehangach ar draws y ddinas.

Ffynhonnell: WIMD 2019



# TRAFNIDIAETH A CHYSYLLTEDD

Wrecsam ydy'r ddinas fwyaf yng Ngogledd Cymru ac felly mae gorsaf reilffordd Wrecsam Cyffredinol yn gwasanaethu fel canolbwynt pwysig ar gyfer symudiadau i mewn ac allan o'r ddinas ar y rheilffordd. Mae'r orsaf reilffordd yn rhoi mynediad da i'r ardal ehangach, gyda gwasanaethau uniongyrchol i arfordir gogledd Cymru, cyrchfannau allweddol ar draws gogledd-orllewin Lloegr a chanolbarth Lloegr, yn ogystal â Chilgwri ar hyd Llinell y Gororau.

Mae gan Wrecsam, sy'n rhan o ranbarth trafnidiaeth gogledd Cymru, ynghyd â Sir y Fflint, ddibyniaeth fawr ar deithio mewn car, gyda 84% o'r teithiau yn cael eu gwneud mewn car. Mae 50% o'r teithiau yn llai na 5km o bellter, gyda llawer ohonynt yn rhai y mae modd eu cerdded neu feicio.

Er bod gan yr ardal y gyfran uchaf o'r boblogaeth sydd â mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus bob awr yn ystod oriau prysuraf y bore (73%), mae'r ffigwr hwn yn gostwng yn sylweddol yn ystod y nos, penwythnosau ac ar y Sul. Dim ond 40% o drigolion sydd â mynediad at wasanaethau aml (pedwar yr awr neu fwy) yn ystod cyfnodau prysuraf y bore, gan ostwng i'r argaeledd lleiaf gyda'r nos a dim ar y Sul. Gorsaf reilffordd Wrecsam Cyffredinol ydy'r drydedd orsaf gaiff ei defnyddio fwyaf yng ngogledd Cymru, sy'n nodi traffig rheilffordd sylweddol. Fodd bynnag, nid oes gan ardaloedd busnes a diwydiannol, fel Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, ddigon o drafnidiaeth gyhoeddus ac opsiynau teithio llesol o ganol y ddinas, gan eu bod wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer defnydd cerbydau. Mae'r isadeiledd i gerddwyr a beicwyr rhwng canol y ddinas a'r ystâd ddiwydiannol hefyd wedi'i danddatblygu.

Er mwyn gwella rhwydwaith trafnidiaeth Wrecsam, mae angen gwella amlder ar oriau gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a gwneud gyrru yn llai deniadol er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd. Mae Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cydnabod potensial Wrecsam o fewn Rhaglen Metro Gogledd Cymru i hwyluso teithio llesol. Mae buddsoddi mewn teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol ar gyfer trawsnewid canol dinas Wrecsam, gan ei gwneud yn fwy hygyrch, cysylltiedig a chynaliadwy. Mae hyn yn cefnogi canol y ddinas fel canolbwynt bywiog ar gyfer byw, dysgu, gweithio a hamdden.



# DYMA RAI O'R PROBLEMAU SY'N EFFEITHIO AR GANOL Y DDINAS:

**1.** **Problemau datgysylltiad reilffyrdd a phriffyrdd sy'n achosi rhwystrau corfforol i symud.**

**2.** **Nid ydy rhwydwaith anhydraidd ac annigonol ar gyfer cerdded a beicio, yn ogystal ag arwyddion annigonol a dryslyd, yn cefnogi teithiau ar droed neu ar feic.**


**3.** **Isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cyfnewid bysiau gwael yng ngorsaf reilffordd Wrecsam Cyffredinol.**

**4.** **Mae'r rhwydwaith ffyrdd yn destun tagfeydd ac oedi, yn enwedig ar adegau prysuraf ar hyd coridor Ffordd yr Wyddgrug ar yr A541. Caiff hyn ei waethygu gan ddibyniaeth uchel ar geir preifat yn Wrecsam.**

**5** **Mae gan Wrecsam rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ac felly mae ardal sy'n ddibynnol ar geir yn cynyddu anghydraddoldebau cymdeithasol.**

## Ffigwr: Pellteroedd teithio 30 munud o ganol dinas Wrecsam

**Ffynhonnell: TravelTime.com**




**Trafnidiaeth yn Wrecsam – Datblygiadau Diweddar**

Yn ddiweddar bu i Lywodraeth Cymru ddatgelu cynlluniau sylweddol i ailwampio trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru drwy'r fenter Rhwydwaith Gogledd Cymru. Nod y rhaglen uchelgeisiol hon ydy cyflwyno system drafnidiaeth ar ffurf metro ar gyfer yr 21ain ganrif i gysylltu cymunedau'n well gyda chanolfannau gwaith, lleihau anghydraddoldeb economaidd a chefnogi twf rhanbarthol.

**Prif Gyhoeddiadau**

- Ail-ddylunio rhwydwaith fws Wrecsam: Mae system bws rheoleiddiol newydd wrthi'n cael ei chynllunio fel rhan o Barth Buddsoddi Wrecsam a Sir y Fflint. Bydd yn gwella'r cysylltiadau i ganol y ddinas a chanolfannau gwaith allweddol megis Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam.
- Mwy o wasanaethau rheilffordd: O Fai 2026, bydd amlder y trenau rhwng Wrecsam a Chaer yn dyblu, gyda chynlluniau yn y dyfodol i sefydlu cysylltiad uniongyrchol tebyg i fetro i Lerpwl, gan gynnig hyd at bedwar trên pob awr yn y degawd nesaf.
- Tocynnau teithio fforddiadwy i bobl ifanc: Bydd cynnig tocyn bws newydd sy'n lansio ym mis Medi yn cyfyngu prisiau sengl i £1 ar gyfer pobl ifanc 16 i 21 oed, gan wella modd trigolion ieuengach i fanteisio ar waith a hyfforddiant.

Mae'r mesurau hyn yn ymateb yn uniongyrchol i heriau trafnidiaeth hirsefydlog yn yr ardal, gan gynnwys achosion lle mae trafnidiaeth gyhoeddus gwael yn golygu mynediad cyfyngedig i swyddi, yn enwedig ar gyfer y rheiny sy'n byw mewn cymunedau mwy pellennig o amgylch y ddinas. Y nod ydy sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn alluogwr economaidd a chymdeithasol ledled Wrecsam a'r rhanbarth ehangach.

# CYFLEOEDD

Er gwaethaf sawl her, mae yna ddigonedd o fuddsoddiadau cyffrous yn Wrecsam ac mae'n clodfori cyfleoedd newydd sylweddol sy'n gosod y sylfeini er mwyn cyflawni ein Gweledigaeth. O ganlyniad i lwyddiannau diweddar ein clwb pêl-droed bu hwb sylweddol yn yr hyder a wnaeth ennyn diddordeb byd-eang ym mhob peth sy'n ymwneud â Wrecsam. At hyn, yn dilyn y Statws Dinas a roddwyd yn ddiweddar yn ogystal ag ymdrechion yr Ymddiriedolaeth Gymunedol a Diwylliant i ddod yn Ddinas Diwylliant 2029, maen nhw'n darparu platfformau i fynd i'r afael â nifer o heriau economaidd, yng nghanol y ddinas ac yn y Fwrdeistref Sirol ehangach.

Yn sgil llwyddiant cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol Cymru – yr ŵyl ddiwylliannol fwyaf yn Ewrop - yn Wrecsam yn 2025 – dangosodd allu Wrecsam i gynnal digwyddiadau diwylliannol o'r radd flaenaf a bu iddo hybu proffil y ddinas yn sylweddol fel lle diwylliannol bywiog a llawn prysurdeb, gan ategu'r momentwm ar gyfer ein dyheadau i ennill y statws Dinas Diwylliant 2029.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd diweddar ar gyfer Canol y Ddinas yn bwrw golwg trwy lygad pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â chanol y ddinas ynghyd â'r busnesau a'r sefydliadau sy'n gweithredu yma a'r buddsoddwyr mae'r ddinas yn awyddus i'w denu. Mae'r Cynllun yn nodi'r buddsoddiadau presennol ac arfaethedig, yn nodi syniadau o'r newydd i fanteisio ar fuddion y Statws Dinas ac yn ymdrin ag uchelgeisiau Wrecsam 2029.




[4]**Wrexham City Centre Placemaking Plan, Wrexham CBC (2023)**

## ENGHREIFFTIAU O FUDDSODDIADAU

- **Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam** – hyd at £160 miliwn ar gyfer hyd at 10 mlynedd, ac ystod o bwerau gan gynnwys rhyddhad treth
- Adleoli swyddi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Sifil – **dros 300 o rolau**
- Amgueddfa Wrecsam – **Amgueddfa Bêl-droed i Gymru** (yn agor yn 2026)
- Porth Wrecsam – Gwelliannau cyffredinol yn Wrecsam gan gynnwys cysylltiadau teithio rheilffordd, bws a char, gwesty newydd a chyfleusterau cynadleddau, gofod swyddfa, stand Kop newydd.
- **Gwelliannau Teithio Llesol** Coridor Ffordd yr Wyddgrug A541 a Stryd Regent
- **Gwelliannau i fannau cyhoeddus ar y Stryd Fawr** – mynd i'r afael â phroblemau o yrru peryglus, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chymorth i sefydlu'r ardal fel calon ddiwylliannol y Ddinas
- **Marchnadoedd Cyffredinol a Chigyddion** – wedi'u hailwampio fel rhan Gynllun Treftadaeth Treflun Wrecsam
- **Adfywio Chapter Court** – "profiad diwylliannol, siopa a hamdden newydd"
- **Barics Hightown** – cartref cwmni Wrth Gefn 3ydd Bataliwn y Cymry Brenhinol
- **Canolfan Ragoriaeth Gofal Iechyd a Therapïau** newydd Coleg Cambria Iâl
- **Buddsoddiad Kellanova** o £75miliwn yn ei ffatri grawnfwyd i greu ffatri grawnfwyd mwyaf Ewrop ar y safle
- **Canolfan Menter, Peirianneg ac Opteg (EEOC) Prifysgol Wrecsam** – canolfan arbenigol ar gyfer ymgysylltu â'r diwydiant, ymchwil ac arloesi

# ENGHREIFFTIAU O DDIGWYDDIADAU




Focus Wales



Eisteddfod Genedlaethol 2025




Gŵyl y Cymunedau




Wrexham Feast





Playday – traeth yng nghanol y ddinas



Wrecsam yn ei Blodau




Taith Merched o amgylch Prydain



Marchnad Nadolig

## A LLAWER IAWN MWY

# BLAENORIAETHAU CYMUNEDOL AR GYFER NEWID

Nid ydym wedi cychwyn arni o'r newydd i nodi blaenoriaethau cymunedol. Yn wir mae Wrecsam eisoes yn elwa o ddiwylliant cyfoethog o ymgysylltu cymunedol, ac rydym wedi mynd ati drwy gysylltu, atgyfnerthu a manteisio i'r eithaf ar yr ymdrechion sydd eisoes ar y gweill. Drwy gydol y broses datblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi cydweithio gyda mudiadau, sefydliadau ac unigolion sy'n rhan annatod o fywydau dydd i ddydd ein cymunedau. Gallwch weld manylion pellach yn ein hadroddiad ymgysylltu Gwneud Pethau'n Wahanol – **Taith Ymgysylltu Bwrdd Dinas Wrecsam (Hyd Yma!), Rhagfyr 2024.**

## Sylfeini a Mewnwelediadau Cynnar

Fe wnaethom gychwyn arni drwy fanteisio ar wybodaeth a mewnwelediad presennol. Cychwynnodd y gwaith ymgysylltu gyda Chynllun Creu Lleoedd Canol y Ddinas yn hydref 2021 a bu ar waith hyd at haf 2023. Fel rhan o'r gwaith bu ymgynghoriadau ar-lein, gweithdai gyda rhanddeiliaid, a digwyddiadau galw heibio cyhoeddus, gan ymgysylltu gyda dros 200 o unigolion a chynhyrchu dros 580 o sylwadau. Bu i'r gweithgareddau ymgysylltu cyfochrog – gan gynnwys y cais Dinas Diwylliant yn 2022, yr ymgynghoriad yn ymwneud â busnes ar yr Ardal Gwella Busnes (BID) canol y ddinas arfaethedig a'r "Sgwrs Sylweddol" gyda dros 400 o oedolion ifanc – i gyd chwarae rhan annatod yn llywio ein blaenoriaethau.

## Sgyrsiau Creadigol a Chynhwysol

Ym mis Mai 2024, aethom ati i lansio galwad drwy rwydweithiau ein Bwrdd ar gyfer 'prosiectau arwyr' – syniadau sylweddol, beiddgar gan grwpiau cymunedol a mudiadau lleol. Cafwyd ymateb aruthrol: derbyniwyd dros 45 o gynigion, gan ddarparu ymdeimlad amhrisiadwy o uchelgais a dichonolrwydd creadigol y ddinas.

Lansiwyd ein hymgysylltiad dinas-eang sylweddol cyntaf, Dim Ond Un Peth ym mis Gorffennaf 2024 gyda chefnogaeth gan Brifysgol Plant Wrecsam. Derbyniwyd dros 3,600 o fewnwelediadau unigryw gan dros 1,500 o gyfranwyr ledled 35 ysgol a grwpiau cymunedol, i'r cwestiwn syml hwn – "Pe gallech chi newid dim ond un peth am ganol dinas Wrecsam, beth fyddai hynny?"

Cafodd y mewnwelediadau eu dadansoddi gan Brifysgol Wrecsam gan ddatgelu pum thema allweddol: adfywio, diogelwch, trafnidiaeth, lles, ac addysg. Yn bwysig iawn, roedd dros 90% o'r ymatebwyr o dan 18, gan gynnig platfform pwerus i leisiau ieuengach.




Gan ategu hyn, bu i'r WrexFactor ym mis Hydref 2024 wahodd pobl o bob lliw a llun i gymryd rhan mewn 'hacathon cymunedol'. Cynhaliwyd y digwyddiad ar y Cae Ras gan ddwyn 128 o bobl ynghyd i drafod syniadau beiddgar ar gyfer dyfodol Wrecsam. Gyda chefnogaeth gan Cwmpas a phanel o ffigyrau cymunedol, cafodd 16 o 'brosiectau arwyr' eu cyflwyno – gan gynnwys mentrau trafnidiaeth arloesol, parthau ieuenctid, gwyliau, rhwydweithiau gwyrdd a mwy. Bu i'r syniadau hyn arddangos uchelgais yn ogystal â chred ar y cyd yn nichonolrwydd Wrecsam i arwain gyda chreadigrwydd a chynhwysedd.





## Dyfnhau'r Deialog (Awst – Hydref 2025)

Wrth i'r Cynllun drafft ddatblygu, bu inni fwrw iddi i gyflawni gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu i gadarnhau ein gweledigaeth, mireinio'r blaenoriaethau a gwirio cynigion cynnar:

- **Awst 2025 :** Bu inni gynnal gweithdy 'Grŵp Arbennig' gan ddwyn ynghyd Senedd yr Ifanc (Senedd Ieuenctid Wrecsam), AVOW (Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Wrecsam), Digwyddiad Mawr Cenedlaethau'r Dyfodol, a digwyddiad ymgysylltu amlddiwylliannol wedi'i gynnal gan Dîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru. At hyn, bu i weithgareddau partner yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ein helpu ni hefyd i gasglu adborth gan gynulleidfaoedd amrywiol.
- **Hydref 2025:** Bu inni dderbyn sicrwydd ffurfiol gan ysgolion uwchradd a phobl ifanc Wrecsam ar gyfer y Cynllun, gan sicrhau bod eu cefnogaeth yn annatod cyn ei gyflwyno. Bu inni hefyd gynnal digwyddiadau ymgysylltu yn benodol i bobl ifanc, gan ategu ein hymrwymiad i rymuso pobl ifanc o dan 25 – thema allweddol o'n gwaith cynharach.

## Pleidleisio Llywodraeth

Cafodd yr ymgysylltu lleol hollgynhwysol hwn ei **ategu gan bleidleisio annibynnol** wedi'i gomisiynu gan Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'i gynnal gan Zencity rhwng Ebrill a Mai 2025. Bu i'r holiadur i 164 o breswylwyr Wrecsam gynnig dilysrwydd allanol gwerthfawr o'n canfyddiadau o dan arweiniad y gymuned, fodd bynnag mae'n bwysig nodi nad oedd ymatebwyr o dan 18 oed wedi'u cynnwys.

Dangosodd y canlyniadau gyfliniad pendant gyda phryderon lleol wedi'u nodi drwy ein gwaith ymgysylltu ni. Cafodd ymddygiad gwrthgymdeithasol ei amlygu gan 48% o ymatebwyr fel y maes sydd angen ei wella fwyaf, ac yna glendid strydoedd (36%) – y ddau yn atgyfnerthu ein ffocws ar fannau a diogelwch cyhoeddus yn uniongyrchol. Ymddangosodd trafnidiaeth fel blaenoriaeth yn ogystal, gyda hygyrchedd a lefelau gwasanaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu sgorio'n wael o gymharu â lleoliadau Cynlluniau ar gyfer Cymdogaethau eraill.

Bu i eithrio pobl ifanc o'r bleidlais ddilysu ymhellach ein penderfyniad i **flaenoriaethu lleisiau o dan 18**, yn enwedig drwy'r fenter Dim Ond Un Peth, lle bu dros 90% o gyfranwyr yn bobl ifanc. Wrth iddyn nhw gymryd rhan, mae wedi helpu sicrhau bod safbwyntiau sy'n aml ar goll o gyfresi data confensiynol wrth wraidd ein sylfaen dystiolaeth.

## Sicrhau bod Blaenoriaethau Cymunedol yn cyd-fynd â'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau

### Amcanion

Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad wedi llywio blaenoriaethau Bwrdd y Ddinas yn uniongyrchol, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r cymunedau rydym wedi ymgysylltu gyda nhw, yn enwedig mewn meysydd megis diogelwch, trafnidiaeth, mannau cyhoeddus, ymgysylltu gyda phobl ifanc a buddsoddiad diwylliannol. Mae'r mewnwelediadau hyn yn cynnig sylfaen dystiolaeth gref a chyfeiriad pendant, gan sicrhau modd i Fwrdd y Ddinas ganolbwyntio ar pum blaenoriaeth buddsoddi craidd. O ganlyniad, mae hyn yn sicrhau bod strategaeth y Bwrdd yn parhau i fod wedi'i wreiddio mewn pryderon cymunedol gwirioneddol ac yn ymateb i'r materion sydd o fwyaf o bwys i'r trigolion lleol.

| | | |
|---|---|---|
| Ymgysylltu Ieuenctid a Seilwaith | Mannau Cyhoeddus a Diogelwch | Trafnidiaeth a chysylltedd |
| | Twf Economaidd a Diwylliannol | |

1. Ymgysylltu Ieuenctid a Seilwaith – Prif flaenoriaeth ledled yr holl ganfyddiadau, gan amlygu'r angen ar gyfer mwy o fannau sy'n ystyriol o bobl ifanc, datrysiadau trafnidiaeth a chyfleoedd ymgysylltu.
2. Mannau Cyhoeddus a Diogelwch – Pryder allweddol, gyda galwadau am fannau cyhoeddus wedi'u rheoli'n well, lleihad mewn troseddau, ac amgylchedd mwy croesawgar.
3. Trafnidiaeth a Chysylltedd – Thema sylweddol, gyda nifer o gynigion ar gyfer teithio llesol, gwell trafnidiaeth gyhoeddus, a gwell symudedd.
4. Twf Diwylliannol ac Economaidd – Blaenoriaeth ar y cyd, gan ganolbwyntio ar dreftadaeth, gwyliau, busnesau annibynnol, a buddsoddiad o ansawdd uchel.

## 1. Mannau Ffyniannus

Bu i'n cymunedau ddweud wrthym yn gyson eu bod eisiau dinas sy'n fywiog, yn ddiogel, gyda chysylltiadau da ac sy'n llawn cyfleoedd. Ledled nifer o weithgareddau ymgysylltu – gan gynnwys Dim Ond Un Peth, Y WrexFactor a Chynllun Creu Lleoedd Canol y Ddinas – bu i themâu adfywio, trafnidiaeth a gwelliannau i fannau cyhoeddus ymddangos fel y prif flaenoriaethau.

- Bu i gynigion prosiectau arwyr a syniadau gan bobl ifanc amlygu'r angen am barciau, mannau gwyrdd, lleoliadau creadigol a diwylliannol gwell, yn ogystal â mwy o weithgareddau yng nghanol y ddinas.
- Roedd cefnogaeth gref tuag at adfywio'r Stryd Fawr, gan fynd i'r afael ag eiddo gwag, a gwella ansawdd a diogelwch mannau cyhoeddus.
- Roedd trafnidiaeth yn thema oedd yn codi dro ar ôl tro – o fysiau fforddiadwy i strydoedd y gellir cerdded arnyn nhw a chysylltiadau gwell i ddod o hyd i waith.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn dangos uchelgais amlwg i greu cymdogaethau diogel, hygyrch a dymunol lle mae pobl yn awyddus i fyw, gweithio a threulio amser ynddyn nhw – gan gyd-fynd yn gyfan gwbl gyda'r amcan Mannau Ffyniannus.

## 2. Cymunedau Cryfach

Mae ymgysylltu wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cysylltiadau, cynhwysiant a balchder ar y cyd yn gyson. Mae ein cymunedau'n gwerthfawrogi cyfleoedd i ddod ynghyd, dathlu hunaniaeth, a chefnogi ei gilydd – yn enwedig ledled cenedlaethau, diwylliannau a chymdogaethau.

- Cafodd y cynllun ei llywio gan fanteisio ar dros 3,600 o fewnwelediadau gan bobl leol, a drwy ganolbwyntio'n benodol ar leisiau ifanc: roedd dros 90% o gyfranwyr Dim Ond Un Peth o dan 18.
- Bu i ddigwyddiadau megis The WrexFactor a gweithdai amlddiwylliannol greu mannau ar gyfer datrys problemau ar y cyd a meithrin cyfalaf cymdeithasol ac ymddiriedaeth.
- Bu i ymgysylltu wedi'i dargedu gyda phobl ifanc, grwpiau ethnig lleiafrifol, a'r rheiny sydd ddim fel arfer ynghlwm â thrafodaethau dinesig helpu i ddenu mwy o bobl i gymryd rhan ac adlewyrchu amrywiaeth ein dinas.

Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r amcan Cymunedau Cryfach – meithrin cydlyniant, annog ymdeimlad o berthyn, a galluogi cymunedau i lywio'u dyfodol gyda'i gilydd.

## 3. Adennill Rheolaeth

Mae ein proses wedi blaenoriaethu arweinyddiaeth a grymuso lleol yn ystod pob cam. Rydym wedi mynd rhagddi i gydweithio gydag ysgolion, sefydliadau llawr gwlad, partneriaid diwylliannol, a busnesau i lywio'r Cynllun.

- Bu i'r 'prosiectau galw am arwyr' a'r hacathon cymunedol gynnig cyfle i'r preswylwyr gyflwyno'u syniadau eu hunain am unwaith.
- Bu i ymgysylltu drwy ysgolion, fforymau ieuenctid a digwyddiadau cymunedol sicrhau bod y rheiny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan newid hirdymor – yn enwedig pobl ifanc – yn gallu cynnig mewnbwn ystyrlon.

Drwy hyn, rydym yn ymateb yn uniongyrchol i'r amcan Adennill Rheolaeth – gan ofalu bod pobl leol wrth wraidd ein penderfyniadau a chynnig yr adnoddau a'r hyder iddyn nhw ddylanwadu ar ddyfodol eu mannau.



# 5. PROSIECTAU AC YMYRIADAU BLAENLLAW

## PROSIECTAU AC YMYRIADAU BLAENLLAW

# BLAENORIAETHAU

**Mae'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau newydd yn dwyn ynghyd ymdrechion adfywio lluosog i lunio agenda mwy cydlynol a llawn cymhelliant ledled y ddinas. Drwy gyflawni blaenoriaethau ar y cyd yn ystod y deng mlynedd nesaf, nod Bwrdd Dinas Wrecsam yw gadael gwaddol sylweddol a pharhaol i'r ddinas.**

### 1
Cefnogi pobl ifanc drwy raglenni a gwella seilwaith.

### 2
Sicrhau bod canol y ddinas yn teimlo fel rhywle mwy diogel a chroesawgar i breswylwyr ac ymwelwyr.

### 3
Gwneud mannau cyhoeddus yn fwy deniadol a dymunol.

### 4
Cadw, datblygu a dathlu treftadaeth Wrecsam.

### 5
Cryfhau seilwaith a gweithgareddau diwylliannol a chefnogi uchelgeisiau i ddod yn Ddinas Diwylliant y DU.

### 6
Gofalu ei bod hi'n haws i bawb gyrraedd a theithio o amgylch Wrecsam drwy gerdded, ar olwynion a/neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

### 7
Cefnogi sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio i gyflawni camau gweithredu cymdeithasol.

### 8
Helpu busnesau annibynnol i gychwyn arni a datblygu yng nghanol dinas Wrecsam.

### 9
Annog buddsoddiadau o safon.



# 01. POBL IFANC YN WRECSAM

Mae Bwrdd y Ddinas yn manteisio ar ddeddf cenedlaethau'r dyfodol Wrecsam er mwyn cyflawni eu camau gweithredu a phenderfyniadau buddsoddi. Yn wir mae'n creu Wrecsam hollgynhwysol a bywiog sy'n ysbrydoli pobl ifanc i ddysgu, byw a ffynnu – drwy feithrin amgylchedd cefnogol lle maen nhw'n teimlo wedi'u cynrychioli, eu gwerthfawrogi a'u croesawu. Fel rhan o'n hymdrechion rydym yn grymuso pobl ifanc i fyw bywydau cadarnhaol, boddhaus, drwy allu manteisio ar fannau sy'n eu hysbrydoli, gwaith ieuenctid o safon wedi'i gyflwyno gan weithwyr proffesiynol eithriadol, a chyfoeth o gyfleoedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae hefyd yn golygu buddsoddi mewn systemau trafnidiaeth effeithlon a hygyrch sy'n fodd i bobl ifanc deithio'n rhwydd ledled y Fwrdeistref Sirol.

## Hoffem sicrhau bod Wrecsam yn rhywle:



- **lle gallai pobl ifanc leisio'u barn ynghylch sut mae penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw'n cael eu gwneud**
- **lle gallai pobl ifanc deithio'n rhwydd ac yn fforddiadwy i'w gwaith, i ddysgu, i fyw ac i chwarae**
- **lle mae cyfleoedd addysg a gyrfaoedd yn hygyrch ac yn ddigonol**
- **lle caiff digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol i bobl ifanc eu cynnal yn rheolaidd**
- **lle mae mannau diogel, hollgynhwysol ac ysbrydoledig ar gael i bobl ifanc.**




# 02. CANOL DINAS WRECSAM

Y nod yw trawsnewid canol y ddinas i fod yn ganolfan bywiog lle mae pobl yn awyddus i fyw, siopa a chymdeithasu drwy sicrhau ei bod yn groesawgar ac yn hollgynhwysol. Bydd bwrw iddi i adfywio canol y ddinas yn llwyddiannus yn effeithio'n gadarnhaol ar y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd, gan feithrin ymdeimlad o falchder ymysg preswylwyr. Mae hyn yn golygu gwella'i gwedd, cefnogi'r rheiny sydd mewn angen, ac annog awyrgylch braf a dymunol. Ymhlith y gwelliannau mae mannau digwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored pwrpasol, gwell trafnidiaeth a symudiad, ac adfywio ein hadeiladau. At hyn, mae clodfori'r iaith Gymraeg a threftadaeth Cymru a chreu amgylchedd croesawgar ar gyfer pobl ifanc yn brif flaenoriaethau. Y nod yw newid gwedd canol y ddinas, y ffordd mae'n gweithio a'r ffordd mae'n cael ei rheoli gan gael gwared ar unrhyw safbwyntiau negyddol a sicrhau bod canol y ddinas yn rhywle lle mae gan y gymuned ymdeimlad o falchder ynddi.

## Hoffem sicrhau bod canol y ddinas yn rhywle:

- ✔ sy'n chwareus, yn ddeniadol ac yn llawn prysurdeb
- ✔ lle caiff mannau cyhoeddus eu cynnal a'u cadw'n arbennig ac sy'n ddymunol
- ✔ lle mae preswylwyr ac ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu croesawu bob amser
- ✔ lle mae digwyddiadau a gwyliau diwylliannol sy'n clodfori popeth am Wrecsam yn cael eu cynnal yn rheolaidd
- ✔ lle mae busnesau lleol yn ffynnu, gan gynnig gwasanaethau a phrofiadau amrywiol ddydd a nos
- ✔ lle mae trafnidiaeth hygyrch yn cysylltu canol y ddinas gyda gweddill y Fwrdeistref Sirol, gan gynnig gwasanaethau drwy gydol y dydd a'r nos.
- ✔ lle mae preswylwyr yn awyddus i fyw mewn mannau cymysg, fforddiadwy a phreswyl wedi'u cefnogi gan gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol



# 03.

# TWRISTIAETH, TREFTADAETH, A DIWYLLIANT YN WRECSAM



Bwrw iddi i sefydlu Wrecsam fel man twristiaeth cyfeillgar a bywiog sy'n amlygu treftadaeth gyfoethog Cymru, amlddiwylliannaeth, parch tuag at ei chymuned filwrol a chyn-filwyr ac ymdeimlad o falchder yn y gymuned. Mae hyn yn golygu hyrwyddo treftadaeth o'r radd flaenaf ac atyniadau diwylliannol ledled y ddinas a'r Fwrdeistref. Y nod yw ennill cydnabyddiaeth fel Dinas Diwylliant nesaf y DU, gan arddangos hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Wrecsam a gwahodd y byd i brofi ei awyrgylch chwareus a chroesawgar.

## Hoffem sicrhau bod Wrecsam yn rhywle:

- **lle mae twristiaid o bedwar ban byd yn derbyn croeso cynnes**
- **lle mae ein cymunedau ac amlddiwylliannaeth yn cael eu clodfori a'u cefnogi**
- **lle mae atyniadau treftadaeth a diwylliannol yn cael eu cadw a'u hyrwyddo'n dda**
- **lle mae Cymreictod y ddinas yn cael ei arddangos gyda balchder i'r holl ymwelwyr**
- **lle mae digwyddiadau a gwyliau'n amlygu amrywiaeth diwylliannol cyfoethog Wrecsam**
- **lle mae balchder cymunedol yn amlwg ym mhob agwedd o fywyd y ddinas**



# 04. BUDDSODDI YN WRECSAM

Rhoi hwb i gyllid y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau a buddsoddiadau eraill i ysgogi twf cynaliadwy a ffyniant economaidd ar gyfer Wrecsam. Bydd hyn yn golygu ategu llwyddiannau diweddar a defnyddio'r llwyddiannau hyn fel ysgogiad tuag at gyfleoedd gwell, gan gynnwys bwrw iddi i ennill statws Dinas Diwylliant y DU. Drwy fanteisio ar y Parth buddsoddi newydd ac ysgogi clystyrau buddsoddi sy'n cefnogi busnesau arloesol a ffyniannus, ein nod yw creu amgylchedd economaidd dynamig. Mae Bwrdd y Ddinas yn ymchwilio a fyddai cronfa buddsoddi o dan ofal y gymuned yn gallu sicrhau cyllid y tu hwnt i'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau gan sicrhau bod arweinyddiaeth leol yn parhau y tu hwnt i hyd oes y cynllun – ond mae angen datblygiad ac ymgysylltiad cymunedol pellach ar gyfer y dull hwn, er mwyn gwirio'i hyfywdra a'i ddyluniad. Bydd hyn yn fanteisiol i'r holl breswylwyr ac yn hybu seilwaith ac amwynderau'r ddinas yn sylweddol.

## Hoffem sicrhau bod Wrecsam yn rhywle:

- **lle mae mynd rhagddi i gynnal Dinas Diwylliant a Pharth Buddsoddi yn ysgogi twf a datblygiad economaidd sylweddol**
- **lle mae busnesau lleol yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i ffynnu a thyfu**
- **lle mae clystyrau buddsoddi yn meithrin arloesedd ac yn ehangu busnesau**
- **lle mae digonedd o gyfleoedd economaidd sy'n hygyrch i bob un o'r preswylwyr**
- **lle mae prosiectau seilwaith yn cael eu datblygu'n strategol ar gyfer manteision hirdymor**
- **lle mae datblygiad economaidd y ddinas yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol**
- **lle caiff cronfa o dan ofal y gymuned ei hymchwilio i ennill cyllid ychwanegol a chynnal arweinyddiaeth leol y tu hwnt i gyllid rhaglen**



# 05.

# CYNHWYSIANT YN WRECSAM

Sicrhau bod yr holl gymunedau yn Wrecsam, waeth lle mae pobl yn byw, eu hoedran, rhyw, cyflwr neu amhariad, neu gefndir, yn teimlo eu bod nhw wedi'u cynnwys ac yn elwa o ddatblygiad economaidd a diwylliannol y ddinas. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol a chreu cyfleoedd hollgynhwysol sy'n hybu lles cymunedol a chydlyniant cymdeithasol. Mae sector gwirfoddol a chymunedol bywiog Wrecsam – o ddarparwyr gofal cymdeithasol i grwpiau amgylcheddol – yn chwarae rhan annatod yn cynnal ac yn cryfhau cymunedau ledled y ddinas.

## Hoffem sicrhau bod Wrecsam yn rhywle:

- ✓ **lle mae twf economaidd o fudd i'r holl breswylwyr, gan leihau anghydraddoldeb**
- ✓ **lle mae cyfleoedd addysg a gwaith yn hygyrch i bawb**
- ✓ **lle mae rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol yn cefnogi grwpiau bregus ac ymylol**
- ✓ **lle mae cefndiroedd diwylliannol amrywiol yn cael eu clodfori a'u bod yn rhan o fywyd y gymuned**
- ✓ **lle mae lles a chydlyniant cymunedol yn cael eu blaenoriaethu yn yr holl fentrau**
- ✓ **lle mae datblygiad y ddinas yn hollgynhwysol, gan sicrhau na chaiff unrhyw un eu heithrio.**



# 6. YMYRIADAU – Y PEDAIR BLYNEDD GYNTAF

# YMYRIADAU – Y PEDAIR BLYNEDD GYNTAF

Mae Bwrdd y Ddinas wedi nodi'r ymyriadau canlynol ar gyfer y cyfnod buddsoddi pedair blynedd gyntaf. Yn wir mae tystiolaeth gref sy'n cyfeirio'r Bwrdd i gyfuno "prosiect arwyr" uchelgeisiol gyda gwaddol hirdymor ar gyfer y ddinas ynghyd ag ymyriadau tymor byr effaith uchel ac amlwg. Tra ein bod ni'n canolbwyntio ar ymyriadau safonol sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw gan y Llywodraeth, bydd fersiynau o'n Cynllun yn y dyfodol yn debygol o nodi ymyriadau ansafonol sy'n adlewyrchu ein nod ehangach a bydd ein hymgysylltu parhaus gyda'r gymuned yn parhau i lywio a mireinio'r ymyriadau hyn.

Wrth gwrs mae trafnidiaeth a chysylltedd yn annatod i adfywio canol dinas Wrecsam yn llwyddiannus. Ein nod yw sicrhau bod preswylwyr, gweithwyr a phobl ifanc yn enwedig yn gallu manteisio ar y ddinas yn ddiogel, yn fforddiadwy ac yn gyfleus. Mae hyn yn golygu gwella mynediad ar gyfer cerdded, teithio ar olwynion a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bu i Fwrdd y Ddinas, ar y cyd â Chynghrair Arweinyddiaeth Wrecsam, hyrwyddo buddsoddiad mewn trafnidiaeth, gan helpu i ddylanwadu newidiadau sylweddol sydd bellach ar waith. Bydd menter Rhwydwaith Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru yn darparu system trafnidiaeth gyhoeddus sy'n debyg i'r metro, gan gynnwys rhwydwaith bysiau wedi'i ail-ddylunio a thocynnau fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc. Bydd cyllid ychwanegol drwy'r Parth Buddsoddi yn cyflwyno cyfleoedd pellach.

Tra bod trafnidiaeth yn parhau i fod yn thema allweddol, yn sgil graddfa'r buddsoddiad cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio, ni fydd yn faes ymyriad craidd yn ystod pedair blynedd gyntaf y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau. Yn lle hynny, bydd ymdrechion lleol yn cyd-fynd gyda'r gwelliannau ehangach hyn i sicrhau bod Wrecsam yn elwa'n gyfan gwbl.

# 1. POBL IFANC – DINAS WEDI'I HADEILADU AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL.

Amlygodd mewnwelediadau o ymdrechion ymgysylltu cymunedol helaeth Wrecsam bod ymgysylltu gyda phobl ifanc a seilwaith ymhlith y prif flaenoriaethau ar gyfer dyfodol y ddinas. Dro ar ôl tro mae pobl ifanc wedi galw am fannau sy'n addas ar gyfer ieuenctid, cysylltiadau trafnidiaeth gwell, a mwy o gyfleoedd i ymgysylltu, cymryd rhan a theimlo eu bod yn perthyn. Mae'r canfyddiadau hyn nid yn unig wedi llywio cyfeiriad y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau ond maen nhw hefyd wedi helpu i ddiffinio nod a rennir ar draws y ddinas.

Un thema sydd wedi ymddangos droeon wrth ymgysylltu yw chwarëusrwydd – nid yn unig fel gwerth, ond fel agwedd uno sy'n cysylltu'r Cynllun gydag uchelgeisiau ehangach megis cais Dinas Diwylliant 2029, Cynllun Creu Lleoedd Wrecsam, a dull ehangach y ddinas tuag at adfywio hollgynhwysol.

Fel ymateb i hyn, mae Bwrdd Dinas Wrecsam wedi ymroi i arwain y gwaith i ddatblygu menter ieuenctid strategol sy'n:

- Integreiddio darpariaeth a syniadau presennol
- Cyd-fynd gyda rhanddeiliaid sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector allweddol
- Datgloi buddsoddiadau newydd
- Sicrhau cynaliadwyedd ac effaith hirdymor

Un o'r cyfleoedd mwyaf addawol o ganlyniad i'r gwaith hwn yw'r posibilrwydd o greu **Parth Ieuenctid** yng nghanol dinas Wrecsam. Mae hyn wedi ennyn diddordeb a momentwm ledled Bwrdd y Ddinas a phartneriaid gwasanaethau ieuenctid. Bu ymweliad i Barth Ieuenctid *The Hive yn Birkenhead yna dau weithdy pwrpasol a oedd yn gofyn: Beth fyddai'r cyfleuster gorau posibl i bobl ifanc yn Wrecsam? Pwy ddylai ei arwain? Pa drefn llywodraethu a modelau cyflawni fyddai'n fwyaf effeithiol?*

**Dyma rai o'r prif negeseuon o'r trafodaethau hyn:**

- Mae gan Wrecsam wasanaethau ieuenctid cryf eisoes, ond mae dichonoldeb amlwg i ategu hyn.
- Gellir cyflawni'r effaith fwyaf drwy ganolbwyntio ar weithgarwch y tu hwnt i'r ysgol.
- Dylai Parth Ieuenctid ategu yn hytrach na dyblygu darpariaeth statudol a Trydydd Sector presennol.

Ar y cyd â'r elusen ieuenctid cenedlaethol, OnSide, a gyda chymorth gan dimau adfywio, addysg ac ieuenctid CBS Wrecsam, mae Bwrdd y Ddinas wrthi'n datblygu Achos Busnes Amlinellol ac yn asesu opsiynau o ran safle. Mae OnSide yn meddu ar brofiad o'i rhwydwaith o 15 Parth Ieuenctid ledled y DU ac mae'n cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid lleol i lywio model sydd wedi'i deilwra i Wrecsam.

Y nod yw creu cyfleuster canolog, hollgynhwysol a hygyrch a man croesawgar ar gyfer pobl ifanc o bob cwr o'r Fwrdeistref Sirol i ymgynnull, cysylltu, dysgu a ffynnu. Mae hyn yn cyd-fynd gydag uchelgeisiau Cynllun Creu Lleoedd Canol Dinas Wrecsam, sy'n nodi bod darpariaeth o'r fath yn hanfodol ar gyfer adfywiad diwylliannol y ddinas a'i hunaniaeth yn y dyfodol. At hyn, mae'n cyd-fynd gyda theithio llesol a buddsoddiad mewn trafnidiaeth mor agos â phosibl at y gorsafoedd bws a thrên.

Byddai Parth Ieuenctid, ar y cyd â chynnig ieuenctid ehangach, yn darparu amgylcheddau diogel ac ysbrydoledig lle gallai pobl ifanc deimlo perchnogaeth a balchder, gan feithrin ymdeimlad cryfach o gysylltiad, creadigrwydd a chyfleoedd cymunedol.

Mae gwella hygyrchedd trafnidiaeth yn hanfodol i sicrhau y gallai pobl ifanc ymgysylltu'n gyfan gwbl gyda'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw. Ein nod yw sicrhau bod canol dinas Wrecsam yn ddiogel, yn gyfleus ac yn addas i bawb – gan sicrhau modd i bobl ifanc ei gyrraedd yn rhwydd, a hynny naill ai drwy gerdded, ar olwynion neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon a fforddiadwy.

Nod Rhwydwaith Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru yw ailwampio trafnidiaeth gyhoeddus rhanbarthol yn sylweddol. Bwriad y rhaglen, sy'n canolbwyntio'n sylweddol ar bobl ifanc, yw sicrhau cysylltiad gwell rhwng cymunedau a chanolfannau gwaith, lleihau anweithgarwch economaidd, a chefnogi twf hollgynhwysol. Yn benodol, disgwylir i'r cap tocyn bws o £1 ar gyfer pobl ifanc 16 i 21 oed, a gyflwynwyd ym mis Medi 2025, wella modd i fanteisio ar waith, hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc ledled y rhanbarth.

Ochr yn ochr â hyn, mae pobl ifanc yn Wrecsam wedi galw'n gyson am gyfleoedd mwy ystyrlon i gyfrannu tuag at y broses gwneud penderfyniadau ynghylch dyfodol y ddinas. Fel ymateb i hyn, mae Bwrdd y Ddinas yn cydweithio gyda Senedd yr Ifanc a sefydliadau eraill i ddatblygu fforwm cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu gyda phobl ifanc – yn ei dro bydd hyn yn sicrhau modd i'r preswylwyr iau leisio'u barn, a'u bod yn cael eu parchu ac yn rhan o'r gwaith llywio datblygiad hirdymor y ddinas.

## Ymyriadau

Ymyriadau wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw – Cydlyniant

- buddsoddi mewn gwella gallu a seilwaith ar gyfer pobl ifanc

Nod Wrecsam yw cyflawni prosiect gwaddol hirdymor ar gyfer pobl ifanc drwy ddatblygu cyfleuster 'Parth Ieuenctid' blaenllaw yng nghanol y ddinas. Bydd y seilwaith newydd hwn sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn cynnig man hollgynhwysol o safon i bobl ifanc o bob cwr o'r Fwrdeistref Sirol fwynhau, dysgu a ffynnu.

Bydd y model gweithredol yn cydymffurfio gydag arfer gorau cenedlaethol ac mae'n debygol o fod ar ffurf 'Elusen Parth Ieuenctid Wrecsam' pwrpasol, gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, busnesau lleol, ac ystod o sefydliadau yn aelodau o'u bwrdd. Yn ogystal â'r cyfleuster canolog newydd, caiff cyllid ei ddefnyddio i wella darpariaeth ieuenctid ehangach ledled Wrecsam – gan gydnabod dichonoldeb y Parth Ieuenctid i weithredu fel sbardun ar gyfer gwella gwasanaethau ieuenctid ledled y ddinas yn yr hirdymor.

Hoffai'r Parth Ieuenctid ddatblygu ei gynnig cymunedol ehangach ac yn ystod y dydd. Gallai hyn olygu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer gofalwyr ifanc, partneriaethau strategol gyda'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, neu ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar yn ystod y dydd. Mae modd i'r gymuned ehangach fanteisio ar yr ased newydd a phwysig hwn, gan annog cynhwysiant ac ymgysylltu rhwng y cenedlaethau.

Rydym hefyd yn bwriadu buddsoddi mewn cryfhau seilwaith ymgysylltu gyda phobl ifanc, yn cynnwys datblygu fforwm ieuenctid, a chefnogaeth ar gyfer prosiectau gweithredu cymdeithasol – gan sicrhau bod pobl ifanc nid yn unig yn fuddiolwyr, ond yn unigolion sy'n chwarae rhan weithredol yn llywio dyfodol y ddinas.

## Buddsoddiadau Dichonol

Datblygu Parth Ieuenctid – Parth Ieuenctid blaenllaw yng nghanol y ddinas sy'n cynnig man hollgynhwysol o safon i bobl ifanc ledled Wrecsam. Caiff ei gyflwyno drwy fodel elusennol newydd gyda threfn llywodraethu traws-sector.

Buddsoddiad Ehangach mewn Darpariaeth Ieuenctid – Cyllid ychwanegol i gryfhau ac ehangu cyfleusterau a gwasanaethau ieuenctid ledled y Fwrdeistref Sirol, gan ddefnyddio'r Parth Ieuenctid fel sbardun ar gyfer effaith ehangach.

Ymgysylltu Ieuenctid a Gweithredu Cymdeithasol – Cymorth ar gyfer fforymau o dan arweiniad pobl ifanc a mentrau gweithredu cymdeithasol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn chwarae rhan weithgar yn llywio dyfodol Wrecsam.

# 2. DIOGELWCH CANOL Y DDINAS AC ATAL TROSEDDU

Byddai bwrw iddi i wella diogelwch canol dinas Wrecsam yn gam dyngedfennol tuag at greu man bywiog a mwy croesawgar ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr. Mae'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymdeimlad o falchder mewn cymuned a thwf economaidd.

Byddai canol dinas mwy diogel yn trawsnewid safbwyntiau negyddol, gan feithrin ymdeimlad o falchder ymhlith y gymuned. Drwy fynd i'r afael â phryderon o ran diogelwch, byddwn yn creu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo'n fwy diogel ac yn awyddus i dreulio amser ynddo. Mae'r awyrgylch cadarnhaol hwn yn annog rhyngweithio cymdeithasol a chysylltiad cymunedol, gan sicrhau bod Wrecsam yn le mwy deniadol.

Mae mesurau diogelwch effeithiol yn cryfhau prosesau rheoli economi fin nos a gyda'r nos Wrecsam. Mae amgylchedd diogel yn cefnogi twf a rheoli digwyddiadau sylweddol, gan ddenu torfeydd sylweddol a chynyddu'r nifer o ymwelwyr sy'n ymweld â chanol y ddinas. Mae hyn yn cynnwys uchelgeisiau'r Ddinas Diwylliant a'r nifer sylweddol o gefnogwyr pêl-droed sy'n ymweld, gan hybu busnesau lleol a chyfrannu tuag at fywiogrwydd y ddinas.

Rydym yn ymroi i sicrhau bod canol dinas Wrecsam yn ddiogel ar gyfer ein preswylwyr bregus a'n pobl ifanc. Bydd mesurau diogelwch gwell yn cynnig tawelwch meddwl i deuluoedd ac unigolion, gan sicrhau modd iddyn nhw fwynhau'r ddinas, yn ystod y dydd a'r nos, heb deimlo ofn. At hyn, mae canol dinas mwy diogel ac wedi'i reoli'n effeithiol yn annatod ar gyfer denu a chadw busnesau. Pan fo busnesau'n hyderus yn niogelwch a rheolaeth eu hamgylchedd, maen nhw'n fwy tebygol o fuddsoddi a ffynnu. Byddai hyn, yn ei dro, yn creu cyfleoedd gwaith ac yn ysgogi twf economaidd, gan hybu atyniad y ddinas ymhellach.

### Ymyriadau

Ymyriadau sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw – Diogelwch

- Dylunio a goruchwylio'r amgylchedd adeiledig a thirluniol i gael gwared ar droseddu ac annog ymddygiad cadarnhaol
- Ymyriadau plismona i dargedu atal troseddu mewn mannau penodol, yn enwedig yng nghanol trefi
- Ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a lleihau ail-droseddu
- Cyd-leoli gwasanaethau lleihau troseddau
- Gwella rheolaeth ganol y dref

Mae Wrecsam yn ymroi i weithredu cyfres o fesurau diogelwch wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar atal troseddau drwy ddyluniad amgylcheddol, plismona a gorfodaeth gweladwy, a strategaethau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ail-droseddu. Nod yr ymyriadau hyn yw hybu hyder y cyhoedd, gwella safbwyntiau o ran diogelwch, a chefnogi economi ffyniannus yn ystod y dydd a gyda'r nos.

## Buddsoddiadau Dichonol

**Wardeiniaid Canol y Ddinas** – Ar y cyd â CBS Wrecsam ac Ardal Gwella Busnes (BID) Canol Dinas Wrecsam, mae cyfle gyda chyllid ychwanegol i ehangu'r cynllun wardeiniaid yng nghanol y ddinas presennol. Gallai cymorth ychwanegol gynyddu'r nifer ac amlder y patrolau – yn ystod y dydd a gyda'r nos – gan hybu gwelededd, ataliaeth a thawelwch meddwl y cyhoedd. Byddai buddsoddiad ychwanegol hefyd yn sicrhau mwy o hyblygrwydd, gan gynnwys cymorth yn ystod digwyddiadau sylweddol yng nghanol y ddinas, ac yn fodd i wardeiniaid fabwysiadu rolau llysgenhadon – gan gynnig cyfeiriadau, ymgysylltu gyda'r cyhoedd, a chefnogi ymwelwyr.

**Cynllun Achredu Braf Bob Nos** – Caiff cymorth ei gynnig i weithredu cynllun Braf Bob Nos ledled canol y ddinas. Mae'r rhaglen hon sydd wedi'i chydnabod yn genedlaethol yn hyrwyddo rhagoriaeth o ran diogelwch lleoliadau, gwasanaeth cwsmer a rheoli alcohol yn gyfrifol. Bydd y cynllun yn help i gynyddu safonau mewn lleoliadau wedi'u trwyddedu ac atgyfnerthu enw da'r ddinas fel rhywle diogel a chroesawgar i bawb.

**Hafan y Dref** – Canolfan Lles Gyda'r Nos – Mae Hafan y Dref yn wasanaeth annatod o fewn Economi Gyda'r Nos Wrecsam, gan gynnig cymorth i unigolion bregus sydd wedi'u heffeithio gan alcohol, cyffuriau, neu bryderon eraill yn ymwneud â lles. Caiff ei gynnal ar nos Sadwrn, ac mae'n cynnig cymorth cyntaf, cymorth emosiynol, a man diogel – gan helpu i leihau pwysau ar wasanaethau brys. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth wedi'i ariannu hyd at 2026 gan GBS Wrecsam, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Gallai buddsoddiadau ychwanegol helpu i ehangu gallu gweithredu'r gwasanaeth, yn enwedig yn ystod cyfnodau lle mae mwy o alw megis digwyddiadau sylweddol yn y ddinas a chynnig cymorth tuag at gynaliadwyedd yn y dyfodol y tu hwnt i'r cyfnod ariannu cyfredol.

# 3. CREU LLEOEDD YNG NGHANOL Y DDINAS



Mae adfywio canol dinas Wrecsam – ei strydoedd manwerthu a hamdden, lleoliadau diwylliannol, ac asedau treftadaeth – yn ganolog i'n nod hirdymor. Bydd canol dinas bywiog a llwyddiannus yn creu effaith crychdon cadarnhaol ledled y Fwrdeistref Sirol gyfan, gan feithrin ymdeimlad o falchder dinesig, gwella ansawdd bywyd, a chryfhau hunaniaeth Wrecsam fel man dewisol i ymweld â hi.

I gyflawni hyn, mae'n rhaid inni sicrhau bod canol y ddinas yn le mwy croesawgar, deniadol a hollgynhwysol. Gan fwrw iddi i wella gwedd ac ymarferoldeb mannau cyhoeddus, bydd yn gymorth i greu amgylchedd chwareus, diogel ac atyniadol sy'n apelio at breswylwyr, ymwelwyr, a phobl ifanc yn arbennig. Fel rhan o'r gwaith byddwn yn adfywio adeiladau gwag neu o ansawdd gwael, a'u trawsnewid i fod yn fannau bywiog i fyw, gweithio, a chymdeithasu ynddyn nhw – gan gynnwys cartrefi fforddiadwy, canolfannau creadigol ac unedau masnachol hyblyg.

Mae uchelgais Wrecsam i gael ei chydnabod fel Dinas Diwylliant nesaf y DU yn ysgogi ein hymrwymiad i fuddsoddi yn seilwaith y ddinas – gan wella trafnidiaeth a symudiad, cysylltedd digidol, lleoliadau diwylliannol, a mannau cyhoeddus. Bydd y gwelliannau hyn yn gymorth i sefydlu Wrecsam fel canol dinas ddiwylliannol gyfoethog a hollgynhwysol, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.

At hyn, mae Wrecsam wedi achub y blaen yng Nghymru o ran y defnydd o dechnoleg a data trefi clyfar i lywio a gwella rheoli lleoedd. O ganlyniad i fabwysiadu mewnwelediadau amser real, mae wedi cryfhau'r broses gwneud penderfyniadau ac wedi caniatáu dulliau mwy ymatebol i anghenion newidiol y stryd fawr.

Wrth gwrs mae cefnogi busnesau lleol yr un mor annatod. Drwy gynorthwyo busnesau presennol i ddatblygu, a denu mentrau newydd sbon o safon, gallwn fynd ati i feithrin economi canol y ddinas mwy amrywiol a dynamig. Bydd cydweithio'n agos gydag Ardal Gwella Busnes (BID) canol y ddinas newydd a sefydlwyd yn ddiweddar yn allweddol i wella cymorth busnes a rheoli lleoedd o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod gwelliannau'n strategol ac yn ymateb i'r ardal leol.

Gyda'i gilydd, bydd yr ymdrechion hyn yn cryfhau enw da Wrecsam fel lle llawn cymeriad, creadigrwydd a chyfleoedd – ar gyfer preswylwyr, cymunedau ac ymwelwyr fel ei gilydd. Gallai cyfleoedd gwaith gwell hybu'r sefyllfa swyddi a allai hefyd gyfrannu tuag at wella iechyd a lles ymhlith y boblogaeth leol.

## Ymyriadau

Ymyriadau wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw – Adfywio, Strydoedd Mawr a Threftadaeth:

- Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi, cymdogaethau a strydoedd mawr, gan gynnwys gwariant cyfalaf a chostau cynnal
- Creu a gwella mannau gwyrdd, gerddi cymunedol, dyfrffosydd ac argloddiau yn yr ardal leol, ynghyd ag ymgorffori nodweddion naturiol mewn mannau cyhoeddus ehangach.
- Buddsoddiad a chymorth ar gyfer seilwaith digidol i gyfleusterau cymunedol lleol

Ymyriadau wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw – Gwaith, cynhyrchiant a sgiliau

- Datblygu ac ehangu cymorth a rhwydweithiau busnes presennol ar gyfer busnesau a mentrau cymdeithasol llai.

## Buddsoddiadau Arfaethedig:

Nodwyd nifer o ymyriadau arfaethedig, pob un â'r gallu i gael eu datblygu ar wahân neu mewn cyfuniad i helpu cyflawni ein Nod. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos rhai o'r posibiliadau hyn, fodd bynnag nid ydy hyn yn rhestr gyflawn ac mae syniadau ychwanegol yn cael eu hymchwilio:

- Gwelliannau i ardaloedd cyhoeddus yn ymestyn o gyflwyno Stryd Fawr lwyddiannus
- Porth Wrecsam: gwelliannau i ardaloedd cyhoeddus o amgylch yr orsaf
- Ailddatblygu'r Neuadd Goffa
- Porth Stryd Gateway – coridor / safleoedd
- Stryd y Bont
- Hen safle'r Farchredfa
- Ehangu a gwella'r gwasanaeth Shopmobility
- Grantiau a chymorth busnes entrepreneuraidd
- Cronfa Allweddol Dyma Wrecsam
- Digwyddiadau buddsoddwyr eiddo
- Digwyddiadau arallgyfeirio busnesau
- Cyflwyno trefi clyfar ledled y ddinas
- Casglu a rhannu data perfformiad lleol o ansawdd uchel e.e. nifer yr ymwelwyr, patrymau gwario
- Seilwaith digidol gwell i gynorthwyo gyda chynnal digwyddiadau sylweddol

# 4. DIWYLLIANT FEL SBARDUN



Mae datblygu seilwaith diwylliannol ac economi creadigol Wrecsam yn flaenoriaeth strategol ar gyfer Bwrdd Dinas Wrecsam ac mae'n rhan ganolog o agenda creu lleoedd ehangach y ddinas. Nid nodwedd ychwanegol yw diwylliant – mae'n ysgogwr adfywio economaidd grymus, ynghyd â chydlyniant cymunedol, a balchder dinesig, gan helpu i sicrhau bod Wrecsam yn ddinas fywiog, hollgynhwysol ac arbennig ar gyfer preswylwyr, yn byw bywydau iach a boddhaus, yn ogystal ag ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae'n adeg dyngedfennol i Wrecsam o ran ei datblygiad diwylliannol. Mae sefydlu Ymddiriedolaeth Gymunedol a Diwylliant Wrecsam (WCCT) yn 2024 yn nodi cam trawsnewidiol tuag at feithrin rhwydwaith diwylliannol cynaliadwy a chydgysylltiedig. Elusen annibynnol yw WCCT a ffurfiwyd gyda chefnogaeth CBS Wrecsam ac mae'n ymroi i ddatblygu a chryfhau seilwaith creadigol a diwylliannol Wrecsam ar gyfer yr hirdymor.

Yn sgil creu'r Ymddiriedolaeth, mae'n dangos bod Bwrdd y Ddinas yn cydnabod bod adfywio diwylliannol yn hanfodol i lwyddiant y ddinas yn y dyfodol – gan greu cyfleoedd newydd ar gyfer twf, cymryd rhan cymunedol a meithrin hunaniaeth. At hyn, bydd Ardal Gwella Busnes (BID) Wrecsam yn chwarae rhan hollbwysig, gan gydweithio gyda WCCT i hyrwyddo digwyddiadau, animeiddio canol y ddinas, ac annog pobl i wario'n lleol, gan sicrhau bod buddsoddiad diwylliannol yn trosi i greu manteision gwirioneddol ar gyfer busnesau a chymunedau.

Mae gwaith WCCT hefyd yn ategu dyhead proffil uchel Wrecsam i ddod yn Ddinas Diwylliant nesaf y DU. Mae hwn yn ddatganiad bwriad sylweddol – un sy'n cyd-fynd gyda'r sylw byd-eang mae Wrecsam yn ei dderbyn eisoes yn sgil llwyddiant Clwb Pêl-droed Wrecsam. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyflwyno cyfle unigryw i hybu buddsoddiad diwylliannol ar gyfer budd economaidd a chymdeithasol ehangach, gan roi hwb i enw da Wrecsam yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a chryfhau ei sylfeini lleol yn ogystal.

Mae WCCT eisoes yn cyflawni cyfres eang o weithgareddau diwylliannol sy'n arddangos awydd y gymuned a'r gallu o ran cyflawni:

- **Rhaglen Comisiynau Diwylliannol:** Cefnogi cymunedau a ffurfiau celf amrywiol ledled y fwrdeistref sirol, o brosiectau treftadaeth cerddorol i wyliau amlddiwylliannol ac adrodd straeon drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Llwybr Celf Cyhoeddus Wrecsam – Cam 2:** Gan ategu llwyddiant Cam 1 gyda chomisiynau newydd yn ymwneud â threftadaeth cerddorol, amrywiaeth diwylliannol, hunaniaeth Cymraeg, ac eiconau lleol ledled lleoliadau allweddol yng nghanol y ddinas.
- **Gweithdai Ymgysylltu Creadigol:** Caiff eu cynnal fel rhan o gais Dinas Diwylliant Wrecsam 2029, gan sicrhau bod lleisiau cymunedol yn llywio'r weledigaeth ddiwylliannol ledled pedwar maes allweddol: Treftadaeth, Chwaraeon, Bwyd a Diod, a'r Celfyddydau a Cherddoriaeth.
- **Datblygu Strategaeth ddiwylliannol 10 Mlynedd o hyd Wrecsam (2027 – 2037):** Llunio cynllun beiddgar a hollgynhwysol sy'n sicrhau bod diwylliant wrth wraidd trawsnewidiad economaidd a chymdeithasol hirdymor Wrecsam.

Mae'r gweithgarwch diwylliannol cydgysylltiedig ac uchelgeisiol hwn yn dangos effeithiolrwydd WCCT fel cyfrwng cyflawni yn seiliedig ar le – a'r dichonoldeb cynyddol i ymgorffori diwylliant fel adnodd ar gyfer adfywio hollgynhwysol a gwaddol hirdymor.

Bydd Bwrdd y Ddinas yn parhau i hyrwyddo diwylliant fel prif ysgogwr newid, gan sicrhau eu bod yn ymwneud yn gyfan gwbl gyda blaenoriaethau adfywio'r ddinas – o greu lleoedd a thwristiaeth i sgiliau, ymgysylltu gyda phobl ifanc a mentrau cymdeithasol.

## Ymyriadau

Ymyriadau wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw – Adfywio, Strydoedd Mawr a Threftadaeth:

- 'Cyllid ar gyfer mentrau celfyddydau, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol lleol'
- 'Mwy o gymorth ar gyfer gweithgareddau, prosiectau a chyfleusterau celfyddydau, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol ynghyd â sefydliadau hanesyddol sy'n rhan o'r cynnig diwylliannol lleol'.

Ymyriadau wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw – Gwaith, cynhyrchiant a sgiliau

- Cyllid i gefnogi datblygu, gwella a hyrwyddo'r economi ymwelwyr, megis atyniadau lleol, llwybrau hanesyddol, teithiau diwylliannol, ymgyrchoedd a chynnyrch eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

## Buddsoddiadau Arfaethedig

Gan ategu momentwm cyfredol, byddai buddsoddiadau arfaethedig yn canolbwyntio ar barhau ac ehangu'r gweithdrefnau llwyddiannus sy'n cael eu gwirio eisoes drwy raglen WCCT:

**Ehangu Rhaglenni Diwylliannol Cyfredol**

- Cymorth parhaus ar gyfer rhaglen comisiynau diwylliannol, gan alluogi mwy o brosiectau o dan arweiniad y gymuned yn ymwneud â ffurfiau celf a chymunedau amrywiol.
- Datblygu Llwybr Celf Cyhoeddus Wrecsam ymhellach gyda chamau ychwanegol yn ymwneud ag agweddau gwahanol hunaniaeth diwylliannol Wrecsam
- •Cyfres ehangach o ddigwyddiadau prawf a gweithgareddau diwylliannol sy'n ategu modelau llwyddiannus sydd eisoes ar waith
- •Cymorth parhaus ar gyfer gweithdai ymgysylltu creadigol sy'n sicrhau bod lleisiau cymunedol yn parhau i lywio datblygiad diwylliannol Wrecsam

**Gweithredu'r Strategaeth ddiwylliannol**

- Galluogi WCCT i weithredu argymhellion allweddol o'r Strategaeth Ddiwylliannol 10 Mlynedd o hyd unwaith y bydd wedi'i gwblhau yn hwyrach eleni
- Cefnogaeth ar gyfer y rhaglenni a'r gweithgareddau diwylliannol sydd wedi'u nodi drwy'r broses datblygu strategaeth

**Meithrin Gallu Diwylliannol a Chyrhaeddiad**

- Cymorth gwell ar gyfer rhaglenni llwyddiannus presennol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach ac ennyn diddordeb mwy o gymunedau
- Rhaglenni sy'n ymwneud gyda phobl ifanc yn benodol ac yn cynnig cyfleoedd creadigol a datblygu sgiliau
- Gweithgareddau sy'n clodfori amrywiaeth diwylliannol Wrecsam ac yn hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol yr iaith Gymraeg e.e. Hwb Amlddiwylliannol
- Digwyddiadau a gwyliau sy'n hyrwyddo enw da diwylliannol Wrecsam ac yn ategu dyheadau ar gyfer cydnabyddiaeth diwylliannol yn y dyfodol.



# 7. CYD-FYND GYDA RHAGLENNI A BUDDSODDIADAU ERAILL

**Nid yw'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau'n cael ei ddatblygu ar ei ben ei hun. Mae'n ategu ac yn ychwanegu gwerth i ystod eang o raglenni presennol ac ar y gweill sy'n rhannu amcanion tebyg ynghylch adfywio, twf hollgynhwysol, gwytnwch cymunedol, a chreu lleoedd hirdymor. Mae cydymffurfio gyda'r mentrau hyn yn strategol yn allweddol i sicrhau cydlyniad, osgoi dyblygu, a lleihau effaith ledled ardal Wrecsam.**

# 7. CYD-FYND GYDA RHAGLENNI A BUDDSODDIADAU ERAILL

## Cynllun Creu Lleoedd Wrecsam a'r Rhaglen Trawsnewid Trefi

Aeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ati i fabwysiadu Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Canol y Ddinas, wedi'i ddatblygu drwy ymgysylltu'n eang gyda rhanddeiliaid a thrwy ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hwn yn ffurfio rhan o ofyniad cenedlaethol Llywodraeth Cymru i holl awdurdodau lleol lunio cynlluniau creu lleoedd sy'n ymdrin â sut maen nhw am gynllunio, blaenoriaethu a chyflawni gwelliannau yng nghanol eu trefi a dinasoedd.

Diben y cynllun yw sicrhau bod anghenion y ddinas yn y dyfodol wrth wraidd polisïau, prosesau gwneud penderfyniadau a buddsoddiadau lleol. Mae'n hyrwyddo cynllun a datblygiad gwell, gan annog gweithgaredd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd mwy bywiog a chynaliadwy yng nghanol y ddinas.

Chwaraeodd Cynllun Creu Lleoedd Canol Dinas Wrecsam rôl allweddol yn ennill cyllid Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru, a wnaeth alluogi'r cyngor i roi ymdrechion buddsoddi strategol ac adfywio ar waith. At hyn, darparodd rhan helaeth o'r gronfa ddata o dystiolaeth ar gyfer yr achos strategol am newid yn y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau hwn, gan sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cyd-fynd yn effeithiol.

Mae dichonoldeb amlwg ar gyfer cydweithio agosach rhwng rhaglenni Llywodraeth Cymru a'r DU ar brosiectau sy'n cynnig buddion ar y cyd i Wrecsam. Drwy ei rôl ar Fwrdd y Ddinas, bydd y cyngor yn parhau i chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod blaenoriaethau'n cyd-fynd ac ymchwilio cyd-fuddsoddiad mewn prosiectau sy'n cefnogi adfywio canol y ddinas.

**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF)**

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cefnogi prosiectau sydd â'r nod o gyflawni deilliannau ystyrlon ar gyfer cymunedau ledled y fwrdeistref Sirol. Mae'n adnodd allweddol ar gyfer bwrw iddi gyda blaenoriaethau nod Llywodraeth y DU, yn enwedig yn y tri maes canlynol:

- Cymunedau a Lle
- Cymorth i Fusnesau Lleol
- Pobl a Sgiliau

Mae nifer o brosiectau sydd wedi'u hariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU eisoes yn cyd-fynd gyda nod y Cynllun hwn i adfywio canol y ddinas. Dyma rai o'r prosiectau hynny:

- **Planetariwm ymdrochol newydd Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore!**, yng nghanol y ddinas
- **Cymorth ar gyfer Ymddiriedolaeth Gymunedol a Diwylliant Wrecsam** a'i rhaglenni diwylliannol mewn cysylltiad â'r cais Dinas Diwylliant.
- **Ymrwymiad parhaus yng ngwaith Trefi Clyfar arloesol Wrecsam**, gan ddefnyddio data a thechnoleg i lywio gwaith rheoli lleoedd gwell
- **Cronfa Allweddol Dyma Wrecsam**, yn darparu cymorth gyda thwf a pherfformiad ar gyfer gwestai, bwytai ac atyniadau i ymwelwyr hyfyw

Nod ein Cynllun yw ategu momentwm ac effaith y mentrau hyn drwy gefnogi eu parhad a'u hehangiad trwy ymyriadau wedi'u targedu a nodwyd yn ein hymyriadau ni.

**Ardal Gwella Busnes Canol y Ddinas**

Mae Ardal Gwella Busnes (BID) Wrecsam yn gyfrwng newydd sylweddol ar gyfer adfywio canol y ddinas. A chanddo gyllideb o oddeutu £2.2 miliwn dros bum mlynedd, bydd yr Ardal Gwella Busnes o dan arweiniad busnesau ac yn canolbwyntio ar gyflawni gwelliannau wedi'u targedu mewn meysydd megis diogelwch, marchnata, digwyddiadau, hygyrchedd, a chymorth busnes.

Mae cysylltiad cryf rhwng blaenoriaethau'r Ardal Gwella Busnes ac amcanion y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau. Yn wir mae'r ddau yn awyddus i wella bywiogrwydd, diogelwch ac apêl canol dinas Wrecsam drwy fuddsoddiad wedi'i gydlynu, mannau cyhoeddus gwell, partneriaethau cryfach, a chymorth ar gyfer busnesau lleol.

At hyn, bydd yr Ardal Gwella Busnes yn chwarae rhan annatod yn cryfhau rheoli lleoedd a chynnig llais i fusnesau canol y ddinas – gan sicrhau bod modd iddyn nhw ddylanwadu o ran sut y mae canol y ddinas yn esblygu. Fel partner ffurfiol, mae modd i'r Ardal Gwella Busnes helpu i gyd-ddylunio a chyd-gyflawni ymyriadau fel rhan o'r Cynllun a gweithredu fel ariannwr cyfatebol neu bartner cyflawni ar gyfer prosiectau perthnasol, gan greu'r effaith fwyaf posibl a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Bydd Bwrdd y Ddinas a'r Ardal Gwella Busnes yn cydweithio i gyfuno cyllid ac ymdrechion llywodraethu, gan helpu i gyflawni strategaeth unedig, wedi'i lywio gan fusnes ar gyfer twf ac adfywiad Wrecsam.

**Clwb Pêl-droed Wrecsam a'r Sefydliad Pêl-droed**

Mae Clwb Pêl-droed Wrecsam yn chwarae rhan annatod yn yr ymdrechion i adfywio'r ddinas – mae eu llwyddiant ar y cae yn cyfateb i ymrwymiad sy'n tyfu i gynnig buddsoddiad strategol mewn seilwaith, twristiaeth a datblygu cymunedol. O ganlyniad i'r hyrwyddo byd-eang yn sgil y gyfres Welcome to Wrexham, mae wedi rhoi hwb i'r nifer o ymwelwyr a'r ymdeimlad o falchder yn y ddinas, sy'n golygu bod y clwb yn sbardun pwerus ar gyfer newid.

Wrth wraidd yr uchelgais hwn mae ail-ddatblygiad y stadiwm Cae Ras STōK, gan gynnwys stand Kop newydd gyda 7,750 o seddi a chyfleusterau sy'n bodloni safonau'r UEFA. Mae hyn yn rhan allweddol o brosiect Porth Wrecsam ac mae'n cyd-fynd yn uniongyrchol gyda nod Bwrdd y Ddinas am ganol dinas fywiog, cysylltiedig a chroesawgar.

Aeth y clwb rhagddi i fuddsoddi yn y rhanbarth drwy brynu 'The Rock' sef yr ardal hyfforddi a'r stadiwm gartref ar gyfer clwb pêl-droed Merched Wrecsam sy'n chwarae ym Mhrif Gynghrair Adran.

Drwy Sefydliad Clwb Pêl-droed Wrecsam, mae'r clwb yn cyflwyno rhaglenni cymunedol wedi'u targedu megis Future Dragons, sy'n cefnogi sgiliau, arweinyddiaeth, a dyheadau ymhlith pobl ifanc, a Future Pitch Regeneration, sy'n gwella cyfleusterau chwaraeon ar lawr gwlad ledled y ddinas. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi blaenoriaethau Bwrdd y Ddinas ynghylch pobl ifanc, iechyd a lles, a chymunedau cryfach.

Hefyd, mae ehangiad masnachol Clwb Pêl-droed Wrecsam – megis ei siop newydd yng nghanol y ddinas a diddordeb yn ail-ddatblygu hen safle'r Farchredfa gyda CBS Wrecsam – yn cefnogi nodau Bwrdd y Ddinas ymhellach o adfywio canol y ddinas, buddsoddiad diwylliannol ac adfywio hirdymor yn seiliedig ar le.

Gyda'i gilydd, mae'r clwb a'i Sefydliad yn bartneriaid allweddol o ran cyflawni deilliannau'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau – gan greu twf hollgynhwysol, cefnogi cenedlaethau'r dyfodol, a gwella enw da Wrecsam fel dinas hyderus a chysylltiedig.

## Parth Buddsoddi

Mae Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, sydd wedi'i gefnogi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn rhaglen hirdymor sylweddol i wella sector gweithgynhyrchu uwch y rhanbarth. Ei nod yw denu hyd at £1 biliwn mewn buddsoddiad preifat a chreu oddeutu 6,000 o swyddi newydd dros y ddegawd nesaf.

Yn wir, mae'r rhaglen sylweddol hon yn cyd-fynd yn gryf gydag uchelgeisiau'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau, yn enwedig o ran cefnogi trafnidiaeth a seilwaith gwell, gwella darpariaeth sgiliau, a chryfhau partneriaethau lleol gyda rhanddeiliaid allweddol megis Prifysgol Wrecsam.

## Meysydd Ffocws Strategol

- **Gweithgynhyrchu Uwch**
  Mae'r Parth Buddsoddi yn blaenoriaethu twf mewn sectorau gwerth uchel megis y sectorau awyrofod a modurol, gan ategu sylfaen diwydiannol presennol y rhanbarth a chyflogwyr caiff eu cydnabod yn fyd-eang megis Airbus a JCB. Mae hyn yn cyd-fynd gyda phwyslais y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau ar gynhwysiant economaidd – gan sicrhau y gallai preswylwyr Wrecsam elwa o gyfleoedd gwaith newydd.
- **Arloesedd a Sgiliau**
  Bydd buddsoddiad yn cefnogi datblygu cyfleusterau dysgu arbenigol a rhaglenni arloesedd ar y cyd â Phrifysgol Wrecsam a sefydliadau megis AMRC Cymru. Mae hyn yn ategu pwyslais y Cynllun ar bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol drwy gryfhau llwybrau at yrfaoedd o safon a chefnogi dysgu gydol oes.
- **Seilwaith a Thrafnidiaeth**
  Caiff cyllid ei neilltuo i wella cysylltedd trafnidiaeth, gan gynnwys opsiynau teithio cynaliadwy a fyddai'n gwella mynediad i safleoedd gwaith sylweddol megis Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam. Mae'r gwelliannau hyn yn cefnogi nod y Cynllun o greu dinas gysylltiedig a hygyrch i bawb.
- **Twf Cynaliadwy**
  Mae'r rhaglen yn pwysleisio datblygu economaidd sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol, gan gyd-fynd gydag egwyddorion adfywio ehangach yn y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau, gan gynnwys seilwaith gwyrdd, y gallu i gerdded yn yr ardal, a lleihau carbon.

Gyda'i gilydd, mae'r Parth Buddsoddi a'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau yn cynnig strategaethau ategol ar gyfer twf – gan gyfuno adfywio wedi'i dargedu gyda datblygiad economaidd hollgynhwysol i sicrhau bod pobl leol yn elwa o fuddsoddiad hirdymor yn Wrecsam.

**Partneriaeth Porth Wrecsam**
Sefydlodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bartneriaeth, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Prifysgol Wrecsam a Trafnidiaeth Cymru, i gyflwyno rhaglen adfywio o'r enw Porth Wrecsam. Nod y rhaglen yw manteisio ar gyfleoedd datblygu economaidd, cymdeithasol a thrafnidiaeth yn ymwneud â Gorsaf Drên Cyffredinol Wrecsam, Cae Pêl-droed Cae Ras Wrecsam, a chyfleoedd trafnidiaeth integredig. Bydd cyfran sylweddol o grant Llywodraeth Cymru o £25 miliwn yn ariannu Stand Kop newydd y Cae Ras, er mwyn i bêl-droed rhyngwladol ddychwelyd i'r stadiwm a chynnal digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol. Ar yr ochr ddwyreiniol, mae'r bartneriaeth yn datblygu gyda chynllun manwl ac ymgynghoriad ar gyfer gweithredu'r uwchgynllun cyffredinol. Mae Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru wedi cytuno mewn egwyddor i gynnig cymorth gwerth oddeutu £4 miliwn.

**Swyddi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Sifil**
Yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU eu bod yn ail-leoli 300 o rolau o Lundain i Wrecsam erbyn 2027, gan ategu cyhoeddiad blaenorol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ail-leoli 50 o staff erbyn 2027.



# 8. CYLLID CYFATEBOL A BUDDSODDIAD WEDI'I DROSOLI

# 8. CYLLID CYFATEBOL A BUDDSODDIAD WEDI'I DROSOLI

Mae Bwrdd Dinas Wrecsam yn ymroi i fanteisio i'r eithaf ar gyllid y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau drwy ddenu buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan ffynonellau preifat, cyhoeddus ac elusennol. Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar greu gweithdrefnau ariannu arloesol, gan ddatblygu cyfleoedd cyd-fuddsoddi strategol, a throsoli proffil uwch Wrecsam i ennill buddsoddiad cynaliadwy hirdymor.

**Dull strategol i drosoli buddsoddiadau**

Gan ategu proffil cenedlaethol a rhyngwladol Wrecsam sydd bellach wedi'i hybu'n sylweddol, ein nod yw sicrhau buddsoddiad na allai fod wedi'i ystyried yn flaenorol. Mae ein hymagwedd yn canolbwyntio ar ysgogi prosiectau a buddsoddiadau strategol sy'n lleihau dibyniaeth ar gyllid cyhoeddus wrth greu amodau ar gyfer ymgysylltu a chyd-fuddsoddi parhaus gan y sector preifat.

**Ymrwymiadau a chyfleoedd cyd-ariannu presennol**

Cyd-fuddsoddiad Ardal Gwella Busnes

Mae'r Ardal Gwella Busnes Canol y Ddinas (2025-2020) sydd newydd ei sefydlu yn cynrychioli buddsoddiad o £2.2 miliwn dros bum mlynedd gan fusnesau lleol. Yn amlwg mae cyfle sylweddol ar gyfer cyd-fuddsoddiad, gyda'r Ardal Gwella Busnes o bosibl yn cynnig cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau tra gallai Bwrdd y Ddinas gyfrannu tuag at brosiectau blaenllaw'r Ardal Gwella Busnes yn ogystal. Gallai'r dull cyfatebol hwn, yn enwedig ar gyfer ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch, marchnata, hygyrchedd, a chymorth busnes ddyblu effaith buddsoddiadau wedi'u targedu yn y meysydd hyn i bob pwrpas.

Mae'r cynnig Parth Ieuenctid yn ategu model blaenorol sydd wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus mewn 15 lleoliad ym mhob cwr o'r wlad. Llwyddodd pob un i ddenu buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat, gan ennill oddeutu 50% o gyfraniadau 'rhoddion sylweddol' ychwanegol tuag at greu a gweithredu'r cyfleuster yn barhaus. Yn yr un modd, bydd ein hymyriadau diogelwch, creu lleoedd a diwylliannol yn cael eu cynllunio i gyd-fynd gydag a throsoli ymrwymiadau ariannu presennol ac yn y dyfodol gan ystod o bartneriaid cyhoeddus a phreifat.

**Cyfatebiaeth Llywodraeth Cymru**

Gwelir bod dichonoldeb cryf ar gyfer cyllid cyfatebol drwy raglenni Llywodraeth Cymru, yn enwedig y rhaglen Trawsnewid Trefi sydd eisoes wedi dangos ei fod yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau adfywio Wrecsam. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd Canol y Ddinas presennol yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer manteisio ar y cyfleoedd cyd-fuddsoddi hyn.

**Strategaethau ariannu yn y dyfodol**

Cyfleoedd buddsoddi cyfalaf yn y sector Preifat

Byddai bwrw iddi i greu Parth Ieuenctid yn golygu'r cyfle uniongyrchol mwyaf arwyddocaol ar gyfer cyllid cyfatebol gan y sector preifat, gan ddefnyddio model profedig OnSide sydd fel arfer yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf sector preifat gwerth miliynau o bunnoedd ynghyd â chyfraniadau refeniw hirdymor gan fusnesau lleol a ffynonellau elusennol. Mae'r model hwn yn cynnig darpariaeth ieuenctid cynaliadwy sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r Cynllun cychwynnol ar gyfer cyfnod buddsoddi'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau.

Mae'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu drwy elusennau lleol ynghyd ag arbenigedd OnSide mewn datblygu a gweithredu a chymorth Rhwydwaith OnSide (gan gynnwys cyllid cenedlaethol)

- Buddsoddiad cyfalaf y sector preifat (oddeutu £4 miliwn)
- Refeniw hirdymor y sector preifat wedi'i ddenu i Fwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer gwasanaethau cymunedol allweddol (o leiaf £700 mil y flwyddyn).

**Buddsoddiad diwylliannol wedi'i drosoli**

Mae'r cais arfaethedig Dinas Diwylliant y DU yn darparu naratif buddsoddi cymhellol ar gyfer denu cyd-gyllid gan fusnesau, sefydliadau a buddsoddwyr unigol. Mae rhaglenni diwylliannol yn cynnig cyfleoedd cadarn ar gyfer nawdd corfforaethol, buddsoddiad elusennol, a chyllid grant treftadaeth, gan drosoli adnoddau ychwanegol sylweddol o bosibl i gefnogi amcanion adfywio ehangach ar y cyd â Chymuned Wrecsam a'r Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol.

**Cyfryngau cyllid arloesol**

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn ymchwilio'r syniad o greu cronfa o dan ofal y gymuned – Cronfa Wrecsam – wedi'i gynllunio fel Cymdeithas buddiant cymunedol elusennol ac annibynnol. Byddai'r cyfrwng hwn yn galluogi codi arian ar gyfer cyllid ychwanegol i ategu cyllid y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau wrth greu sefydliad gwaddol hirdymor. Caiff strwythur y gronfa ei ddatblygu drwy brosesau cyfranogol sydd â'r potensial i fanteisio ar ffrydiau ariannu amrywiol gan gynnwys buddsoddiad elusennol, buddsoddiad cymdeithasol, cyfranddaliadau cymunedol ac ymgysylltu ar wasgar.

**Ymgasglu elusennol ac ar wasgar**

Bydd y Bwrdd yn ymchwilio strategaethau arloesol ar gyfer ymgasglu cymunedau ar wasgar Wrecsam a'i rhwydweithiau elusennol ehangach, gan drosoli cysylltiadau emosiynol ac arbenigedd i gynnig buddsoddiad ariannol a chymorth gwerthfawr ar gyfer ymdrechion adfywio.

**Targedau lluosydd buddsoddiadau**

Nod y Bwrdd yw creu lluosyddion buddsoddiadau sylweddol, gan ddefnyddio cyllid y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau fel cyfalaf cychwynnol i fanteisio ar ffrydiau buddsoddi llawer mwy.

Ymysg y prif gyfryngau mae defnyddio buddsoddiad cyhoeddus i ddileu risgiau ymrwymiad y sector preifat, gan greu prosiectau arddangos sy'n denu buddsoddiad dilynol, a datblygu adnoddau ariannol arloesol sy'n cyfuno cyfalaf cyhoeddus, preifat ac elusennol.

Awgrymai gwiriadau marchnad cynnar awydd cryf gan fusnesau a buddsoddwyr lleol i gyfrannu tuag at drawsnewid Wrecsam, gyda'r proffil uwch yn sgil llwyddiannau diweddar yn cynnig cyfleoedd digynsail i sicrhau cyd-fuddsoddiad na fyddai efallai wedi bod yn hygyrch yn flaenorol.



# 9. YMGYSYLLTIAD Y GYMUNED A RHANDDEILIAID

# 9. YMGYSYLLTIAD Y GYMUNED A RHANDDEILIAID

## Ein hymrwymiad ichi

Diben Bwrdd Dinas Wrecsam yw gwasanaethu trigolion Wrecsam: mae hynny sydd o bwys ichi o bwys inni

Drwy ymgysylltu gydag ein cymunedau, fe wyddom nad ydym yn cychwyn o'r cychwyn. Wrth gwrs mae grwpiau cymunedol arbennig eisoes yn bodoli yn Wrecsam, ynghyd â phreswylwyr angerddol ac ymroddgar sy'n cyflawni gwaith anhygoel ledled y ddinas. Rydym yma i gysylltu, cefnogi a hyrwyddo'r hyn sydd ar waith eisoes, gan sicrhau bod modd i bawb gael dweud eu dweud wrth inni lywio ein dyfodol.

## Sut rydym yn mynd ati i ymgysylltu

Rydym yn awyddus i wneud penderfyniadau gydag ac nid ar gyfer trigolion Wrecsam. Fe ddylech chi allu dweud wrthym beth hoffech chi ei wneud, pryd hoffech chi ei wneud a sut hoffech chi ei wneud. I gyflawni hyn, rydym yn:

1. Gofyn ichi'r hyn sydd o bwys ichi: gyda ffyrdd cyflym a rhwydd o roi gwybod inni sut i wella Wrecsam. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ymuno gyda chyfarfodydd grwpiau presennol ledled Wrecsam, pryd bynnag y bydd yn gwneud synnwyr i drafod ein blaenoriaethau ar y cyd gyda'n gilydd.
2. Eich gwahodd chi i feddwl am syniadau newydd gyda ni: mewn ffyrdd hwyl a chreadigol sy'n helpu newid eich blaenoriaethau i fod yn gynigion ymarferol.
3. Gweithio ar ddatrysiadau gyda'n gilydd: gan ddwyn pobl ynghyd i lunio cynlluniau manwl y mae modd eu cyflawni, gan rannu cyfrifoldeb, a chronni ein gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad cyfunol.

Ni fydd ein hymdrechion ymgysylltu'n ddull untro ond yn ddull 'sgyrsiau parhaus' – mewnwelediadau ar bob un o'r tair lefel gan gefnogi ein gwaith bob amser.

## Meithrin rhywbeth parhaus

Nid ydym yn awyddus i ymgysylltu'n unig – hoffem greu 'system ymgysylltu' a allai gefnogi Bwrdd Dinas Wrecsam, a phawb arall sydd wrthi'n gwneud Wrecsam yn le gwell, am flynyddoedd maith.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy:

- **Gofyn y cwestiynau pwysig:** canolbwyntio ar y cwestiynau hynny sydd o bwys nid yn unig i Fwrdd Dinas Wrecsam, ond i Wrecsam gyfan.
- **Cysylltu pobl:** cynnal sgyrsiau ac annog cydweithio rhwng nifer o wahanol bobl a sefydliadau.
- **Meithrin gallu:** cynnig y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol i sefydliadau lleol i ddeall a chynrychioli diddordebau eu cymuned yn fwyaf effeithiol.
- **Rhannu gwybodaeth:** gydag ein Sylfaen Gwybodaeth Wrecsam newydd, a fyddai'n sicrhau bod modd i bawb fanteisio ar ymchwil a mewnwelediadau sy'n ymwneud â Wrecsam gan ddefnyddio un porth chwilio rhwydd ar-lein.
- **Dysgu gan y gorau:** cydweithio gydag arbenigwyr lleol a chenedlaethol a allai ein hysbrydoli ac ein herio ni i wella sut rydym yn gweithio'n gyson.

Nod ein gweithdrefn yw cyrraedd pawb ledled cymunedau Wrecsam, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu hymylu'n aml neu wedi'u tangynrychioli mewn ymgynghoriadau traddodiadol, drwy ymgysylltu wedi'i dargedu, ffurfiau hyblyg, a chydweithio gyda sefydliadau sydd ag ymddiriedaethau a pherthnasau presennol. Byddwn yn parhau i fonitro data cydraddoldebau i sicrhau bod y Bwrdd yn ymgysylltu gyda phobl sy'n cynrychioli holl gymunedau Wrecsam.

## Ein hymdrechion wrth baratoi'r cynllun hwn

Wrth baratoi'r Cynllun Adfywio hwn, mae dros 2,000 o bobl wedi cefnogi'r broses, gan gynnwys drwy gyflawni'r canlynol:

- Cynnal cyfarfod archwilio rhwng arweinwyr ac arbenigwyr ymgysylltu o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn Wrecsam, gan fwrw golwg ar y dichonoldeb ar gyfer cymuned ymarfer ymgysylltu, wedi'i gyflawni ar y cyd â Phrifysgol Wrecsam.
- Comisiynu a datblygu Adroddfa Sylwadau Wrecsam ar-lein, mynediad agored i'w roi ar waith erbyn 2026.
- Darparu grantiau dewisol bach i gefnogi rhwydweithiau lleol i gyflawni ymarferion ymgysylltu gyda'u haelodau, er mwyn cefnogi gwaith Bwrdd Dinas Wrecsam.
- Cyflwyno 'Dim Ond Un Peth', ymarfer ymgysylltu cyhoeddus ar raddfa fawr (gyda dros 1,500 o bobl ynghlwm) lle mae croeso i bawb gyfrannu, ond sy'n canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc, wedi'i gyflawni ar y cyd â Phrifysgol Plant Gogledd Cymru.
- Cyflwyno 'The WrexFactor', 'hacathon cymdeithasol' lle mae croeso i'r cyhoedd gymryd rhan (gyda dros 100 o bobl ynghlwm) gan ganolbwyntio ar ddatblygu syniadau y gallai Bwrdd Dinas Wrecsam eu rhoi ar waith, wedi'i gyflawni ar y cyd â Cwmpas.
- Cynnal 'grŵp arbennig' o bobl ifanc – gweithdy sy'n cysylltu nifer o rwydweithiau a fforymau sy'n cynrychioli diddordebau plant a phobl ifanc yn Wrecsam, wedi'i gyflawni ar y cyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Wrecsam a Senedd yr Ifanc.
- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd 'Hwb Amlddiwylliannol' Gogledd Ddwyrain Cymru – fforwm sy'n dwyn ynghyd dros 20 o sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau amrywiol Wrecsam.
- Cyflawni cyfres o weithdai gyda phartneriaid allweddol i gyd-gynllunio cynigion ar gyfer Parth Ieuenctid Wrecsam, rhan ganolog o gynllun buddsoddi Bwrdd Dinas Wrecsam.

## Sut gallwch chi barhau i gymryd rhan

I gymryd rhan a chefnogi ein gwaith, gallwch gyflawni'r canlynol:

- **Rhowch wybod inni beth sydd o bwys ichi:** drwy'r sesiynau galw heibio, holiaduron a digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau eraill byddwn ni'n eu cynnal yn barhaus yn ystod y 10 mlynedd nesaf.
- **Ewch ati i gymryd rhan yn eich grwpiau cymunedol lleol:** byddwn yn parhau i gydweithio gyda nhw, yn hytrach na dyblygu ymdrechion a chreu rhwystrau newydd rhag gallu cymryd rhan.
- **Siaradwch gydag aelodau'ch Bwrdd:** mae'r aelodau ar gael i gasglu a rhannu'ch barn ym mhob cyfarfod, fel sydd wedi'i grybwyll yn Adran 10: Llywodraethu

## Sut rydym yn adrodd yn ôl ichi

Rydym yn ymroi i gynnig tryloywder a dangos yn union sut mae eich adborth chi yn llywio ein penderfyniadau. Drwyddi draw, byddwn yn cynnig adborth eglur a gonest ynghylch sut mae eich cymorth yn effeithio ar ein cynlluniau a'n prosesau gwneud penderfyniadau:

- **Caiff cofnodion a phenderfyniadau'r bwrdd eu cyhoeddi ar-lein,** gan sicrhau eich bod chi'n gweld sut mae barn y gymuned yn llywio ein dewisiadau.
- **Caiff adroddiadau yn dilyn gweithgareddau ymgysylltu sylweddol eu cyhoeddi'n gyhoeddus**, gan ddangos yr hyn gafodd ei rannu gyda ni a sut rydym ni wedi ymateb.
- **Dolenni adborth eglur** yn dangos sut mae eich cyfraniad chi mewn gweithgareddau penodol wedi dylanwadu ar gynlluniau a buddsoddiadau
- **Diweddariadau rheolaidd** ar gynnydd mentrau rydych chi wedi helpu i'w llywio
- **Cyfathrebu gonest** ynghylch cyfyngiadau, heriau a chyfnewidiadau wrth wneud penderfyniadau.

Nid ymgynghori yw hyn yn unig – mae'n ymwneud â meithrin gallu hirdymor Wrecsam er mwyn i'r preswylwyr lywio eu dyfodol gyda'i gilydd.

## Cydymffurfio gyda'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae ein dull ymgysylltu'n cyd-fynd yn gryf gyda 5 ffordd o weithio'r Ddeddf, yn bennaf drwy'r canlynol:

- **Ymrwymiad:** cyflawni gwaith y tu hwnt i ymgynghori er mwyn cyd-gynhyrchu cynlluniau gydag aelodau a chynrychiolwyr o'r gymuned.
- **Integreiddio:** cefnogi cydweithrediad gweithgareddau ymgysylltu rhwng asiantaethau lluosog, a rhannu mewnwelediadau rhyngddyn nhw.
- **Cydweithio:** gan gyflawni ar y cyd lle mae buddiannau ar y cyd.
- **Hirdymor:** gyda buddsoddiad mewn 'seilwaith ymgysylltu' gyda'r dichonoldeb i'w gynnal y tu hwnt i oes Bwrdd Dinas Wrecsam.
- **Atal:** gydag ymgysylltu sy'n seiliedig ar asedau ac sy'n canolbwyntio ar syniadau a buddsoddiad cadarnhaol.

Ymhellach i hyn, mae cynrychiolaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Fwrdd Dinas Wrecsam (fel sydd wedi'i grybwyll yn Adran 10: Llywodraethu) yn cefnogi bod cynlluniau a gweithgareddau'r ddau gorff yn cyd-fynd yn uniongyrchol.



# 10. LLYWODRAETHU

# 10: LLYWODRAETHU

## Strwythur Llywodraethu

Caiff y strwythur llywodraethu manwl ar gyfer y rhaglen Cynllun ar gyfer Cymdogaethau ei grybwyll mewn Cytundeb Gweithredu rhwng Bwrdd Dinas Wrecsam (sy'n gweithredu fel Bwrdd Cymdogaeth) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel y corff atebol.

Sefydlodd Bwrdd Dinas Wrecsam Weithlu Llywodraethu sydd wrthi'n datblygu ac yn mireinio'r strwythurau llywodraethu i sicrhau eu bod yn bodloni rhaglen y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau gan hefyd ategu'r trefniadau llwyddiannus a sefydlwyd o dan y rhaglen Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi blaenorol.

## Strwythur Partneriaeth

Mae'r rhaglen Cynllun ar gyfer Cymdogaethau'n gweithredu drwy bartneriaeth rhwng:

- **Bwrdd Dinas Wrecsam (Bwrdd Cymdogaeth):** sy'n gyfrifol am gyd-gynhyrchu'r Cynllun Adfywio, gan gynnwys y weledigaeth 10 mlynedd a'r cynlluniau buddsoddi, a chyflawni er budd y bobl leol i wella seilwaith ffisegol a chymdeithasol y gymuned
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Cymru (corff atebol):** yn cefnogi Bwrdd y Ddinas i ddatblygu a chyflawni'r cynllun gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau cyfreithiol, ariannol a gweithdrefnol
- **Y gymuned:** gan ymgysylltu ar flaenoriaethau a dwyn Bwrdd y Ddinas a'r Cyngor i gyfrif.

## Strwythur a Rolau'r Bwrdd Cymdogaeth

**Cadeirydd** Mae Bwrdd Dinas Wrecsam o dan arweiniad Cadeirydd annibynnol, Rachel Clacher CBE, Cyd-sefydlydd Moneypenny a Chyd-sefydlydd ac Ymddiriedolwr WeMindTheGap. Fel sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth y DU, mae'r Cadeirydd yn berson busnes ac yn arweinydd cymunedol sy'n cynnig arweinyddiaeth strategol ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn parhau o dan arweiniad y gymuned ac wedi'i wreiddio yn yr ardal leol.

**Aelodau Bwrdd** Mae aelodau bwrdd yn bresennol mewn cyfarfodydd ac yn cyfrannu eu profiad a'u gwybodaeth o bob rhan o'r gymuned, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Cynrychiolwyr etholedig (AS lleol, Aelod o'r Senedd ac uwch gynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Busnesau a mentrau cymdeithasol lleol
- Grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol
- Arweinwyr ffydd a chymunedol
- Y Lluoedd Arfog
- Sefydliadau diwylliannol, y celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon
- Asiantaethau cyhoeddus a sefydliadau angor

Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cyflawni eu rolau'n wirfoddol. Mae pob aelod yn meddu ar hawliau pleidleisio cyfartal ynghylch penderfyniadau'r Bwrdd.

**Arsyllwyr Cefnogol** Mae Bwrdd y Ddinas yn gwahodd swyddogion o Fwrdeistref Sirol Wrecsam a chyrff sector cyhoeddus eraill, ynghyd â chynghorwyr arbenigol, i gyfarfodydd i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau. Dydy arsyllwyr cefnogol ddim yn meddu ar hawliau pleidleisio ond maen nhw'n cynnig arbenigedd technegol hanfodol ac yn sicrhau cydgysylltiad gyda gweithgareddau sector cyhoeddus ehangach.

**Gweithgorau**

Mae Bwrdd Dinas Wrecsam yn cynnull gweithgorau i gasglu mewnbwn arbenigol ac arbenigedd ar flaenoriaethau a phrosiectau penodol. Mae'r grwpiau hyn yn dwyn ynghyd rhanddeiliaid perthnasol, ymarferwyr, a chynrychiolwyr cymunedol i lywio penderfyniadau'r Bwrdd a chefnogi datblygiad cynigion y gellir eu cyflawni. Mae gweithgorau'n gweithredu'n hyblyg i ddiwallu anghenion gwahanol brosiectau a gallai arbenigwyr technegol, darparwyr gwasanaeth, sefydliadau cymunedol a'r rheiny sydd â phrofiad byw sy'n berthnasol i'r prosiect dan sylw fod ynghlwm â nhw.

**Perthynas gyda'r Corff Atebol**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithredu fel corff atebol ar ran Bwrdd Dinas Wrecsam. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi ei phrosesau llywodraethu ar waith ynghlwm â gweithrediadau a phenderfyniadau Bwrdd y Ddinas, gan sicrhau bod eu gweithgareddau'n cyd-fynd gyda'r safonau cyfreithiol, ariannol a gweithdrefnol.

At hyn, mae fframweithiau cadarn y Cyngor o ran gwneud penderfyniadau, rheoli cyllid a goruchwylio'n darparu'r strwythur a'r gefnogaeth hanfodol i hwyluso gweithrediadau effeithiol a thryloyw. Mae'r berthynas atebolrwydd hon yn sicrhau ymddiriedaeth gyhoeddus a bod mentrau'n gynaliadwy, yn cael eu rheoli'n dda a'u bod er budd cymuned Wrecsam.

**Gofynion Llywodraethu a Thryloywder**

Cydymffurfiaeth gydag Egwyddorion Nolan

Mae Bwrdd Dinas Wrecsam a'r holl aelodau Bwrdd yn gweithredu'n unol â'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) fel y'u diffinnir gan y Pwyllgor ar Safonau Bywyd Cyhoeddus:

1. **Anhunanoldeb –** Gweithredu er budd y cyhoedd yn unig
2. **Uniondeb** – Osgoi rhwymedigaethau amhriodol a datgan buddiannau a pherthnasoedd
3. **Gwrthrychedd** – Gweithredu'n ddiduedd, yn deg ac yn seiliedig ar werth gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau.
4. **Atebolrwydd** – Bod yn atebol i'r cyhoedd a derbyn unrhyw graffu sy'n briodol
5. **Bod yn agored** – Ymddwyn yn agored gan atal gwybodaeth am resymau pendant a chyfreithlon yn unig
6. **Gonestrwydd** – Bod yn onest ym mhob achos
7. **Arweinyddiaeth** – Hyrwyddo'r egwyddorion hyn a herio ymddygiad gwael.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl, gweithdrefnau Datgan Diddordebau a Chod Ymddygiad yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn.

## Safonau Rheoli Arian Cyhoeddus

Caiff y rhaglen hon ei rheoli yn unol â'r egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus, gan sicrhau'r canlynol:

- **Rheoleidd-dra:** Mae'r holl wariant yn unol â'r ddeddfwriaeth ac o fewn y pwerau sydd wedi'u cyflwyno
- **Priodoldeb:** Caiff safonau ymddygiad a llywodraethu corfforaethol eu cynnal
- **Gwerth am Arian:** Caiff adnoddau eu defnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol
- **Dichonoldeb:** Mae modd cyflawni'r cynigion ac maen nhw'n cyflawni'r deilliannau a ddymunir

## Mesurau Tryloywder ac Atebolrwydd

Mae Bwrdd y Ddinas yn gweithredu'n dryloyw i sicrhau y gallai'r gymuned ei ddwyn i gyfrif:

- **Amserlen Cyfarfod:** Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd
- **Gwybodaeth Gyhoeddus:** Caiff aelodau'r Bwrdd, y trefniadau llywodraethu, papurau cyfarfodydd, cofnodion a chofnodion penderfyniadau eu cyhoeddi ar wefan Bwrdd y Ddinas: [cyflwyno'r URL unwaith y bydd wedi'i lansio]
- **Gwrthdaro Buddiannau:** Caiff yr holl wrthdaro eu cyhoeddi yn y cofnodion cyfarfod
- **Proses Gwneud Penderfyniadau:** Prosesau eglur wedi'u dogfennu yn amlinellu'r hawliau a'r gweithdrefnau pleidleisio

## Cod Ymddygiad a Gwrthdaro Buddiannau

Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cydymffurfio gyda chod ymddygiad sy'n seiliedig ar Egwyddorion Nolan. Mae prosesau eglur yn rheoli gwrthdaro buddiannau (masnachol, gwirioneddol ac arfaethedig) wrth wneud penderfyniadau. Mae'n rhaid i'r Aelodau ddatgan buddiannau ariannol ac anariannol cyn i'r Bwrdd ystyried penderfyniadau. Mae'r Cyngor yn cynnal cofnodion datgan diddordebau.

## Llwybr i'r Farchnad a'r Broses Gwerthuso Buddsoddiadau

**Fframwaith Datblygu a Gwerthuso Prosiectau**

Mae proses buddsoddi Bwrdd y Ddinas yn cydbwyso cyflymder cyflawni gyda rheolaeth briodol o arian cyhoeddus trwy weithdrefnau datblygu a gwerthuso prosiectau sefydledig.

Caiff prosiectau eu datblygu gan ddefnyddio fframweithiau achos busnes cydnabyddedig, ac ategu profiad y Cyngor o gyflawni rhaglenni ariannu tebyg. Mae Bwrdd y Ddinas yn sefydlu gweithgorau fel sy'n ofynnol i ganolbwyntio ar ddatblygu a gwerthuso cynigion buddsoddi.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnig cyngor a chefnogaeth i sicrhau bod ystyriaethau priodoldeb, rheoleidd-dra, gwerth am arian a gallu cyflawni'n cael eu cydbwyso'n briodol. Mae fframwaith dewis a dethol prosiectau, wedi'i gytuno ar y cyd â Bwrdd y Ddinas a'r corff atebol, yn sicrhau caiff yr holl gynigion eu gwerthuso'n dryloyw ac yn deg.

## Proses Gwneud Penderfyniadau a Chymeradwyo

Bwrdd y Ddinas sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn unol â'i weithdrefnau llywodraethu sefydledig a'r fframwaith dewis a dethol prosiectau sydd wedi'i gytuno ar y cyd.

Fel y corff atebol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid rhaglen ar ran Bwrdd y Ddinas i sefydliadau cyflawni, gyda thelerau ac amodau priodol i sicrhau modd o reoli perfformiad a chydymffurfiaeth gyda gofynion y rhaglen.

Mae'r fframwaith llywodraethu hwn yn sicrhau bod rhaglen y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau'n cyflawni'r budd mwyaf posibl i gymuned Wrecsam yn ogystal â chynnal y safonau uchaf o ran atebolrwydd cyhoeddus a rheolaeth ariannol.




# 11. SICRWYDD

# 11: SICRWYDD

Fel y corff atebol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithredu fframwaith sicrwydd hollgynhwysol i sicrhau caiff cyllid y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau ei reoli'n briodol yn unol â dyletswyddau statudol llywodraeth leol Cymru a'r gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

**Rheolaethau a Monitro Ariannol:** Mae Prif Swyddog Cyllid y Cyngor (Swyddog Adran 151) yn darparu sicrwydd llinell gyntaf trwy systemau rheoli ariannol sefydledig, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau wrth awdurdodi taliadau, monitro cyllideb rheolaidd, a chysoni gwariant grant yn chwarterol yn erbyn dyraniadau cymeradwy.

**Rheoli Risg Twyll:** Mae'r Corff Atebol a Bwrdd Dinas Wrecsam yn ymwybodol o Safonau Swyddogaethol Grantiau Swyddfa'r Cabinet sy'n ymwneud â rheoli Risg Twyll, a byddant yn cymhwyso'r canllawiau i gyflawni'r Cynllun ar gyfer Cymdogaethau. Mae'r Corff Atebol eisoes yn gyfarwydd â'r broses sicrwydd sydd ar waith ar gyfer Cronfeydd Ffyniant Bro a Rhannu Ffyniant, sy'n cael ei gefnogi gan ei Reoliadau Ariannol sy'n eistedd o fewn Cyfansoddiad y Cyngor.

**Monitro Cydymffurfiaeth:** Mae gweithgareddau sicrwydd parhaus yn cynnwys monitro cadw at reoliadau caffael, cyfraith rheoli cymhorthdal, dyletswyddau cydraddoldeb, a gofynion amgylcheddol. Mae cytundebau grant yn nodi rhwymedigaethau adrodd, hawliau archwilio, a darpariaethau ad-dalu ar gyfer diffyg cydymffurfio.

**Adrodd ac Archwilio:** Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu Datganiad Defnydd Grant blynyddol i MHCLG sy'n manylu ar reolaethau gwariant a Llythyr Sicrwydd blynyddol sy'n nodi unrhyw bryderon gweinyddol. Mae archwilio mewnol yn adolygu prosiectau sampl bob blwyddyn, gydag archwiliad allanol yn archwilio'r rhaglen gyffredinol fel rhan o broses cyfrifon statudol y Cyngor.



# 12. AMSERLEN CYFLAWNI

# AMSERLEN CYFLAWNI

